


# CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

## CEREDIGION








**Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai**

**Cyngor Sir Ceredigion**

Medi 2008

# RHAGAIR



*Hawliau tramwy cyhoeddus yw un o'r prif ffyrdd i bobl gael mynediad i gefn gwlad a'i fwynhau. Ar yr un pryd, mae'r rhwydwaith hawliau tramwy yn rhan o'r isadeiledd teithio lleol, gan ddarparu llwybr o gartrefi pobl i gyfleusterau lleol a gweithleoedd.*


*Mae darparu mynediad i'r arfordir a'r cefn gwlad sydd yn ein sir yn rhan hanfodol o dwristiaeth wledig Ceredigion, ac mae'r rhwydwaith o lwybrau'n fantais economaidd bwysig. Mae mynediad i gefn gwlad hefyd yn bwysig o ran iechyd a lles. Gall cerdded, beicio a marchogaeth yn rheolaidd fod o fudd drwy wella iechyd pobl yng Nghymru.*

*Mae ein rhwydwaith hawliau tramwy yn ased, ond mae angen ei reoli a'i wella os ydyw i gyflawni ei botensial. Bydd sicrhau cyfraniad a rhan y gymuned a sefydliadau partner yn y blynyddoedd i ddod yn elfen allweddol wrth sicrhau'r gwelliannau ar gyfer mynediad i gefn gwlad a fydd o fudd i'r gymuned leol ac i ymwelwyr â Cheredigion.*

*Fel yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Wasanaethau Amgylcheddol a Thai ac aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i wireddu'r freuddwyd.*

*Y Cyng. Gethin James*
*Aelod Cabinet*
*Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai*
*Medi 2008*

# CYNNWYS




**RHAGAIR**

**CYNNWYS**

**GWELEDIGAETH A CHRYNODEB GWEIHTREDOL**

**RHAN 1**

1.1 Beth yw'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy?
1.2 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)
1.3 Proffil o Geredigion
1.4 Pwysigrwydd hawliau tramwy a mynediad
1.5 Darpariaeth Hawliau Tramwy a mynediad

**RHAN 2**

2.1 Asesiadau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
2.2 Asesiad 1 – Y cyd-destun strategol ar gyfer rheoli hawliau tramwy
2.3 Asesiad 2 – Y Map Diffiniol: diffiniad cyfreithiol hawliau tramwy
2.4 Asesiad 3 – Cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus
2.5 Asesiad 4 – Rheoli a diogelu hawliau tramwy cyhoeddus
2.6 Asesiad 5 – Asesiad o anghenion defnyddwyr
2.7 Asesiad 6 – Cyhoeddusrwydd i hawliau tramwy, mynediad a'u hyrwyddo
2.8 Beth rydym wedi'i ddysgu?

**RHAN 3**

3.1 Cynhyrchu'r Datganiad Gweithredu
3.2 Gweithredu ac Adolygu
3.3 Datganiad Gweithredu

**ATODIADAU**

Atodiad 1 Rhestr Byrfoddau
Atodiad 2 Safleoedd Cefn Gwlad yng Ngheredigion
Atodiad 3 Cyfrifoldebau Hawliau Tramwy
Atodiad 4 Cyd-destun Strategol – Cynlluniau a Strategaethau Perthnasol
Atodiad 5 Ardaloedd Rheoli Llwybrau yng Ngheredigion
Atodiad 6 Hyrwyddo Mynediad a Rhoi Cyhoeddusrwydd iddo (Cyngor Sir Ceredigion)
Atodiad 7 Adroddiad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol

# GWELEDIGAETH A CHRYNODEB GWEITHREDOL





## GWELEDIGAETH

***Mae arfordir a chefn gwlad Ceredigion yn amrywiol ac yn arbennig iawn. Mae tirwedd y sir, ei chynefinoedd a'i bywyd gwyllt, ei hanes a'i diwylliant yn rhinweddau gwerthfawr – sy'n cael eu gwerthfawrogi gan drigolion lleol yn ogystal ag ymwelwyr.  Ceir cyfleoedd heb eu hail i fwynhau'r rhinweddau hyn ar y Rhwydwaith Hawliau Tramwy.  Ond mae'r rhwydwaith o lwybrau yn llawer mwy na chaffaeliad pwysig o ran mynediad a mwynhad.  Mae'r llwybrau'n hyrwyddo iechyd a lles, ac yn un o seiliau'r economi dwristiaeth yng Ngheredigion.***

***Fe fydd Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy er mwyn cynllunio gwelliannau mynediad yng Ngheredigion a'u blaenoriaethu.  Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r rhwydwaith yn agored erbyn 2018 ac yn cael ei werthfawrogi gan bob rhan o'r gymuned.  Yr unig ffordd o sicrhau gwelliant parhaus yw drwy weithio'n agos gyda phartneriaid, ac mae'r cynllun yn nodi'r ffyrdd y gallwn weithio gyda'n gilydd i gyflawni nodau cyffredin.***

***Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn galluogi'r rhwydwaith hawliau tramwy i wireddu ei botensial – rhoi mynediad o'r radd flaenaf i arfordir a chefn gwlad Ceredigion.***

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Lluniwyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Ceredigion er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.  Am y tro cyntaf, mae gofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer gwell rheolaeth o'r rhwydwaith hawliau tramwy.  Wrth lunio'r cynllun mae'r Cyngor Sir wedi ystyried i ba raddau y mae'r rhwydwaith o lwybrau yn ateb gofynion y cyhoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol; y cyfleoedd a ddarperir ar gyfer

hamdden a mynediad i gefn gwlad, a'r defnydd gan unigolion dall neu sy'n gweld yn rhannol, a phobl eraill sydd ag anawsterau symudoledd.

Mae dau brif ran i'r Cynllun – yn gyntaf, asesiad o hawliau tramwy lleol; ac yn ail, datganiad gweithredu ar gyfer rheoli hawliau tramwy yng Ngheredigion a'u gwella.

Roedd asesiadau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ystyried:

- Y cysylltiadau allweddol â chynlluniau a strategaethau eraill
- Y Map Diffiniol a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer hawliau tramwy
- Cyflwr hawliau tramwy yng Ngheredigion
- Rheoli hawliau tramwy
- Anghenion y defnyddwyr
- Hyrwyddo hawliau tramwy a mynediad

Mae yno oddeutu 2506 cilomedr (1566 milltir) o hawliau tramwy yng Ngheredigion. Mae yno hefyd ardaloedd mawr o dir 'Mynediad Agored' ac amrywiaeth o safleoedd cefn gwlad a gaiff eu rheoli gan wahanol sefydliadau.

Mae rhwydwaith hawliau tramwy Ceredigion, a mannau eraill sy'n rhoi cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad, yn rhinweddau pwysig iawn. Hawliau tramwy cyhoeddus yw un o'r ffyrdd pennaf i bobl gael mynediad i gefn gwlad a'i fwynhau. Mae'r rhwydwaith yn hollbwysig o ran adfywio lleol – mae mynediad i gefn gwlad yn rhan annatod o'r cynnyrch twristiaeth gwledig. Hefyd, mae mynediad i gefn gwlad yn bwysig o ran iechyd a lles. Gall cerdded yn rheolaidd, beicio a marchogaeth ceffylau fod yn fuddiol iawn wrth wella iechyd pobl yng Nghymru. Mae hawliau tramwy a llwybrau beicio hefyd yn cynnig ffyrdd i bobl deithio o'u cartrefi i'w gwaith a chyfleusterau lleol heb draffig.

Fodd bynnag, nid yw'r rhwydwaith mewn cyflwr cystal ag y dylai fod. Yn wir, fe gynhaliodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru arolwg o hawliau tramwy yn 2002, gan nodi cyflwr gwael hawliau tramwy ledled Cymru, a'r costau cysylltiedig o ran gwella a chynnal a chadw'r rhwydwaith. Hefyd, amlygodd yr arolwg fod diffyg adnoddau ar gyfer rheoli llwybrau. Er bod cyflwr hawliau tramwy yng Ngheredigion wedi gwella yn y blynyddoedd diweddar, 41% yn unig o'r hawliau tramwy a ystyriwyd yn hygyrch yn 2007-08 (ffigwr sy'n is o lawer na'r cyfartaledd yng Nghymru). O ganlyniad i hyn nid yw'r rhwydwaith yn gwireddu ei lawn botensial wrth roi cyfleoedd ar gyfer mynediad a hamdden, twristiaeth, iechyd a chludiant lleol.

Caiff gwahanol ddulliau o reoli llwybrau eu hystyried, ac fe amlygir materion sydd angen mynd i'r afael â hwy, yn enwedig targedu adnoddau drwy rwydwaith o lwybrau wedi'u blaenoriaethu, mynediad i bobl lai abl a'r ffordd y caiff cymunedau lleol eu cynnwys wrth reoli llwybrau. Roedd yr asesiadau hefyd yn ystyried anghenion y defnyddwyr, gan dynnu casgliadau o nifer o astudiaethau. Ystyriwyd anghenion amrywiaeth o wahanol ddefnyddwyr, ac fe nodwyd y rhesymau allweddol dros beidio â defnyddio'r rhwydwaith o lwybrau (llwybrau wedi'u rhwystro a diffyg arwyddbyst).

Yn olaf, ystyriwyd cyhoeddusrwydd a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer mynediad. Mae gwybodaeth ynglŷn â rhwydweithiau o lwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda – ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr – yn sylfaenol er mwyn sicrhau y gwneir y mwyaf o gyfleoedd twristiaeth a hamdden.

Mae'r asesiadau a gynhaliwyd yn greiddiol i ddatblygiad cynllun gweithredu sy'n darparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â chamau gweithredu'r Cyngor Sir yn y 10 mlynedd nesaf.

Un o brif gydrannau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yw'r 'Datganiad Gweithredu' sy'n ceisio adlewyrchu dyheadau defnyddwyr y llwybrau a darparu fframwaith ar gyfer gwella'r rhwydwaith o lwybrau yn barhaus yn y 10 mlynedd nesaf. Mae'n gosod sail ar gyfer penderfyniadau ariannol ac yn creu nifer o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sydd â diddordeb mewn mynediad i gefn gwlad, iechyd a lles ac adfywio gwledig.

Mae'r datganiad gweithredu yn seiliedig ar bum thema gydberthnasol a wnelo â rheoli a gwella hawliau tramwy a mynediad yng Ngheredigion. Y themâu sydd dan sylw yn y datganiad gweithredu yw:


- Cynnal y Map Diffiniol
- Rheoli'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy
- Ateb gofynion y defnyddwyr, yn cynnwys y rhai hynny sydd ag anawsterau symudoledd neu nam ar y golwg
- Gweithio mewn partneriaeth
- Hybu ymwybyddiaeth ynglŷn â hawliau tramwy a mynediad.

Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cynnwys gweithredoedd strategol ar y cyfan, ond ar adegau maent yn berthnasol i lwybr neu safle penodol. Mewn nifer o achosion fe ddatblygir gweithredoedd drwy lunio rhaglenni blynyddol a chynlluniau gweithredu manwl. Wrth nodi rhwydwaith o lwybrau wedi'u blaenoriaethu rhoddir ffocws ar weithredu i wella hawliau tramwy a chyfleoedd mynediad yng Ngheredigion. Mae angen gwneud y defnydd gorau o adnoddau, ac wrth gategoreiddio gwahanol fathau o lwybrau gallwn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o staff a chyllid. Mae adnoddau, yn cynnwys cyllid allanol, yn hanfodol er mwyn trosglwyddo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, er nad oes sicrwydd y bydd cyllid llawn ar gael, wrth reswm.

Dyletswydd statudol yw llunio'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, ac er nad yw'n ddyletswydd statudol i'w weithredu, mae disgwyl y bydd y Cyngor yn gwneud ymdrech i sicrhau y caiff y cynllun ei drosglwyddo. Mae'r datganiad gweithredu yn uchelgeisiol a heriol, a bydd angen cefnogaeth barhaus gan lywodraeth leol a chenedlaethol yn ogystal â sefydliadau eraill. Rhoddwyd pwyslais ar adnoddau ar gyfer rheoli llwybrau, ond fe wneir cynnydd hefyd drwy wella effeithlonrwydd, mabwysiadu arfer gorau, gweithio mewn partneriaeth a denu cefnogaeth ac ymrwymiad y gymuned leol.

Fe fydd angen adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a datblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer rhan olaf y cyfnod 10 mlynedd.

# RHAN 1



## 1.1 BETH YW'R CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY?

Cynhyrchwyd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Sir Ceredigion yn unol â gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CROW). Am y tro cyntaf, mae'n gyfreithiol ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio'n strategol ar gyfer datblygu, rheolaeth well a hyrwyddo'u hawliau tramwy lleol presennol a newidiadau neu ychwanegiadau i'r rhwydwaith hawliau tramwy.

Wrth gynhyrchu'r cynllun, bu i'r Cyngor asesu'r canlynol:

a. I ba raddau mae'r hawliau tramwy yn diwallu anghenion y cyhoedd yn awr ac yn y dyfodol;
b. Y cyfleoedd y mae hawliau tramwy cyhoeddus yn eu darparu ar gyfer ymarfer corff a mathau eraill o hamdden a mwynhad yn yr awyr agored;
c. Hygyrchedd hawliau tramwy cyhoeddus i bobl ddall neu rannol ddall, neu i eraill sydd â phroblemau symudedd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys dwy brif elfen – yn gyntaf, **asesiad** o'r hawliau tramwy lleol; ac yn ail, **datganiad gweithredu** ar gyfer rheoli a gwella hawliau tramwy yng Ngheredigion.


I dywys y broses o gynhyrchu'r Cynllun, lluniodd y Cyngor Sir fframwaith ar ei gyfer yn 2004. Ymgynghorwyd ar y fframwaith hwn gyda chynghorau cymuned, sefydliadau a grwpiau oedd â diddordeb mewn mynediad.
Roedd y fframwaith hefyd yn nodi'r asesiadau i'w cynnal, ac mae'r rhain wedi bwydo i'r broses o gynhyrchu'r cynllun. Edrychwyd ar y dylanwadau polisi sy'n berthnasol i reoli hawliau tramwy a mynediad, y fframwaith deddfwriaethol ac anghenion defnyddwyr. Ceir crynodeb o'r chwe asesiad yn Rhan 2 o'r Cynllun.

Ymgynghorwyd ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion (drafft) yn gynnar eleni (roedd y cyfnod ymgynghori rhwng Ebrill 24ain a Mehefin 18fed 2008). Rhoddwyd Hysbysiad Cyhoeddus yn y Cambrian News ar Ebrill 24ain 2008 a dosbarthwyd y cynllun drafft i ystod eang o sefydliadau gan gynnwys cynghorau cymuned yng Ngheredigion. Roedd y Cynllun drafft hefyd ar gael ar wefan y Cyngor, yn Swyddfeydd y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd. Bu i Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion ddarparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr iawn ym mhob cam o'r gwaith a wnaed i gynhyrchu'r cynllun.

Ceir crynodeb o'r ymatebion a wnaed i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae'r broses a ddilynwyd gan y Cyngor Sir wrth gynhyrchu'r Cynllun yn adlewyrchiad o'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru: nodir hyn yn Ffigwr 1.

***Ffigur 1: Sut y cynhyrchwyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.***




Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yw'r prif fodd i awdurdodau lleol nodi, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'w rhwydwaith hawliau tramwy lleol – ac wrth wneud hynny sicrhau darpariaeth well ar gyfer cerddwyr, beicwyr, marchogion a phobl sydd â phroblemau symudedd. Bydd y Cynlluniau hefyd yn ystyried y swm sylweddol o dir mynediad newydd sydd wedi dod i'r amlwg yng Nghymru o dan Ddeddf CROW.

Bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cyflawni nifer o swyddogaethau pwysig. Bydd yn darparu'r canlynol:

- fframwaith strategol ar gyfer rheoli hawliau tramwy a mynediad yng Ngheredigion;
- sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch adnoddau a sylfaen ar gyfer cynigion ariannu;
- sail ar gyfer llunio rhaglenni gwaith ar gyfer hawliau tramwy a mynediad;
- modd i'r gymuned leol a phartneriaid eraill fod yn rhan o'r broses o reoli hawliau tramwy a mynediad yng Ngheredigion.

## 1.2 ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL

Yn ôl Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001 / 42 / EC ar asesu effaith cynllun neu raglenni penodol ar yr amgylcheddol (a gyfeiriwyd yn gyffredinol

atynt fel Cyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol) bydd angen asesiad amgylcheddol ffurfiol wrth gynhyrchu cynllun neu raglenni penodol sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Mae'r Gyfarwyddeb yn rhan o gyfraith yng Nghymru drwy Reoliadau Rhaglenni a Chynlluniau Asesu Amgylcheddol (Cymru) 2004 (rheoliadau asesiad amgylcheddol strategol).

Wrth gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol, bydd angen ystyried effaith amgylcheddol y cynllun gan gynnwys opsiynau eraill a argymhellir, mor gynnar â phosib yn y broses o baratoi'r cynllun.

Nid yw'r Canllawiau a roddwyd i Awdurdodau Priffyrdd Lleol ar gyfer paratoi Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ac a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2002 yn son am unrhyw ofynion sgrinio Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn ymwneud â Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Fodd bynnag, bu i Gyngor Cefn Gwlad Cymru hysbysu'r Awdurdodau yn 2008 (fel rhan o'u hymateb i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft ) y dylid ystyried y cynllun dan Erthygl 2 y Cyfarwyddeb ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Erbyn hyn roedd yr holl asesiadau ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi eu gwneud yn ogystal â'r gwaith o gyhoeddi ac ymgynghori ar y cynllun. Bu i Gyngor Cefn Gwlad Cymru hysbysu'r Awdurdod y dylid naill ai gynnwys datganiad sgrinio a oedd yn cyfiawnhau paham na wnaed Asesiad Amgylcheddol Strategol ; neu dylid cynnwys datganiad yn cyfiawnhau paham na ddylid ymgymryd ag ymarfer sgrinio**.**

Bu i'r Awdurdod ymateb drwy baratoi Adroddiad Sgrinio ar Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n gynwysedig yn y ddogfen hon fel Atodiad 7. Felly, daethpwyd i'r casgliad nad oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol ar y Cynllun Gwela Hawliau Tramwy. Dylid nodi fodd bynnag y bydd yn bosib y dylid cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ar raglenni sy'n deillio o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

## 1.3 PROFFIL O GEREDIGION

Sir wledig yw Ceredigion yn bennaf, ac mae'n cwmpasu 1,795 kilometr sgwâr, gyda phoblogaeth o 78,280 (amcangyfrif canol blwyddyn 2005). Mae'r sir wledig hon yn cynnwys chwe phrif dref: Aberystwyth, Aberaeron, Aberteifi, Llandysul, Llanbedr-pont-steffan a Thregaron. Mae llawer o dwristiaid sy'n aros am gyfnod ac ymwelwyr undydd yn cael eu denu gan arfordir gwych y Sir, ei golygfeydd a'i bywyd gwyllt. Yn 2005 daeth cyfanswm o 2.8 miliwn o dwristiaid i Geredigion, gydag ychydig dros eu hanner yn dod am y dydd (1.45 miliwn)[1].

Mae Ceredigion yn cynnwys y categorïau cyffredinol hyn o dirwedd / dopograffi:

- **Arfordir Bae Aberteifi** – sy'n estyn am 60 milltir (96km) rhwng aberoedd Dyfi a Theifi. Mae'r arfordir yn cynnwys amrywiaeth eang o fathau o

[1] Adroddiad 'STEAM' 2006. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan twristiaeth y Cyngor Sir.

draethlin, gan gynnwys twyni Ynyslas, stormdraethau, baeau tywod a chlogwyni uchel. Mae cyfran sylweddol o'r arfordir heb ei ddatblygu, ac mae pedair rhan wedi'u dynodi'n Arfordir Treftadaeth oherwydd ansawdd eithriadol eu tirwedd. Mae dwy ardal ym Mae Aberteifi yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol oherwydd eu pwysigrwydd i fioamrywiaeth.

- **Mynyddoedd Cambria** - llwyfan ucheldir anghysbell sy'n cynnwys copa amlwg Pumlimon (2468 troedfedd / 752 metr o uchder) ac sy'n ymestyn ar hyd y Sir ac i mewn i Bowys gymdogol. Mae Mynyddoedd Cambria yn cynnwys ardaloedd helaeth o borfa ucheldir a rhostir (gan gynnwys rhandiroedd Tir Comin sylweddol) a phlanhigfeydd conifferaidd mawr. Yn llifo'n ddwfn yn y dyffrynnoedd yma mae'r afon Rheidol ac Ystwyth a'u hisafonydd.

- **Dyffrynnoedd afonydd** – Teifi, Aeron, Ystwyth, Rheidol a Dyfi, sy'n disgyn trwy geunentydd serth o'u tarddiad ym Mynyddoedd Cambria, gan greu gorlifdiroedd eang yn y pen draw wrth gyrraedd arfordir Ceredigion.

- **Cefn gwlad donnog** – tirwedd a nodweddir gan ffermydd bychain ac arweddau a ffurfiwyd gan arferion amaethyddol dros genedlaethau lawer; patrwm cywrain o gaeau gyda pherthi a choetiroedd. Mae'r nodweddion hyn yn troi'n rhostir agored a phlanigfeydd conifferaidd ym Mynydd Bach ac ar gyrion Mynyddoedd Cambria.

Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys amrywiaeth cyfoethog o gynefinoedd – yn cynnwys clogwyni môr, twyni tywod, gwlyptir, coetir a dolydd ucheldir – sy'n cynnal nifer o rywogaethau prin neu hawdd eu niweidio. Adlewyrchir cyfoeth bioamrywiaeth y Sir gan y nifer fawr o safleoedd sydd â dynodiadau cadwraeth natur statudol, yn ogystal â safleoedd 'anffurfiol' eraill megis Gwarchodfeydd Natur Lleol a safleoedd yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.

Mae cefn gwlad Ceredigion yn deillio yn ei hanfod o effaith amaethyddiaeth, sydd wedi rhoi ffurf i'r dirwedd, ond sydd hefyd yn rheoli'r tir, yn ogystal â darparu sylfaen ar gyfer hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol ardaloedd gwledig.

Mae i dirwedd y Sir hefyd gyfoeth o nodweddion hanesyddol ac archeolegol. Mae'r nodweddion yma'n adnodd gwerthfawr eu hunain ond y maent hefyd yn ffrwyth diddordeb i bobl leol ac ymwelwyr sy'n crwydro cefn gwlad. Mae prosiect 'Ysbryd y Mwynwyr' wedi dangos sut y gellir gwerthfawrogi tirwedd hanesyddol mwyngloddio metel (yn yr achos yma treftadaeth mwyngloddio metel gogledd Ceredigion) drwy ddatblygu rhwydwaith o lwybrau sy'n gysylltiedig â chyhoeddusrwydd penodol.

Mae'r Sir yn cynnwys dau 'dirwedd hanesyddol' (a glustnodwyd yn y Gofrestr Tirwedd o ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru 3). Y cyntaf o'r rhain yw Ucheldir Ceredigion, sef ardal sy'n cynnwys olion ac aneddleoedd cynhanesyddol a diweddar; Sarn Helen; Abaty Strata

Florida; llwybr y porthmyn a'r lleoliad ar gyfer Hafon Thomas Johnes. Yr ail yw rhan isaf dyffryn teifi. Canolbwyntir ei ddiddordeb hanesyddol ar olion Oes Efydd; safleoedd canoloesol seciwlar, eglwysig ac amddiffynedig yn ogystal â thai boned mwy diweddar.

Mae'r nodweddion yma'n darparu adnodd cyfoethog ar gyfer datblygu a hyrwyddo cyfleoedd mynediad i gefn gwlad.

## 1.4 PWYSIGRWYDD HAWLIAU TRAMWY A MYNEDIAD

Hawliau mynediad cyhoeddus yw un o'r prif ffyrdd i bobl gael mynediad i gefn gwlad a'i fwynhau. Ar yr un pryd, mae'r rhwydwaith hawliau tramwy yn rhan o'r isadeiledd teithio lleol. Bydd llwybrau a theithiau seiclo yn darparu llwybrau di-draffig o gartrefi pobl i gyfleusterau lleol a mannau gwaith. Wrth wneud hyn gall y rhwydwaith o lwybrau yma gyfrannu at leihau defnydd o'r car ar gyfer teithiau byr y gellir eu gwneud ar droed neu ar feic.

Mae hawliau tramwy'n allweddol i adfywio lleol – mae nifer o astudiaethau wedi dangos gwerth hawliau tramwy a mynediad i'r economi wledig. Amcangyfrifir bod gwariant gan gerddwyr sy'n ymweld ag ardaloedd yn cyfrannu £550 miliwn i economïau gwledig ac arfordirol Cymru[4]. Yn yr un odd, mae marchogaeth a beicio hefyd yn cyfrannu at economïau lleol.

***Ffigur 2 – Pwysigrwydd mynediad i gefn gwlad***

- Yn ôl Arolwg Ymweliadau Dydd y DU yn 1996:
  - Roedd 33% o'r ymweliadau â chefn gwlad yn y DU ar gyfer cerdded, dringo bryniau a chrwydro
  - O fewn y cyfanswm hwn, roedd 53% ar gyfer teithiau cerdded byr, 45% ar gyfer teithiau cerdded hir (dros 2 filltir) a 2% ar gyfer dringo bryniau;
  - Roedd nifer yr ymweliadau â chefn gwlad er mwyn cerdded, dringo bryniau a chrwydro wedi cynyddu o 363m ym 1993 i 447m ym 1996.
- Yng Nghymru, mae 51% o'r bobl yn mwynhau cerdded yn rheolaidd.[5]
- Yn ôl amcangyfrif Cymdeithas Ceffylau Prydain, mae 4.5% o boblogaeth y DU yn marchogaeth yn rheolaidd.
- Mae beic ar gael mewn rhyw 39% o aelwydydd Cymru[2]. Awgrymodd astudiaeth gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad y byddai 32% o'r aelwydydd yn beicio mwy petai mwy o ddarpariaeth ar gael.
- Awgrymodd adroddiad Defra '*Making the best of byways'* fod rhyw 15,000 o bobl yn gyrru cerbydau hamdden oddi ar y ffordd yng Nghymru a Lloegr.

---

[2] LlCC, Ystadegau Trafnidiaeth Cymru, 2000

Yng Ngheredigion, felly, mae mynediad i gefn gwlad yn rhan hanfodol o dwristiaeth wledig y Sir ac mae'r rhwydwaith o lwybrau'n fantais economaidd allweddol (gweler Ffigwr 2). Ar ben hynny, mae mynediad i gefn gwlad yn bwysig o ran iechyd a lles. Gall cerdded, beicio a marchogaeth yn rheolaidd fod o fudd drwy wella iechyd pobl yng Nghymru.

## 1.5 DARPARIAETH HAWLIAU TRAMWY A MYNEDIAD

### Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Cyfanswm hyd yr hawliau tramwy cyhoeddus a gofnodwyd yng Ngheredigion yw 2506 km (1566 milltir). Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli 7.5% o gyfanswm Cymru. Llwybrau troed cyhoeddus yw mwyafrif y llwybrau hyn (66%). Dangosir hyd y gwahanol fathau o hawliau tramwy, ynghyd â chymariaethau yn ôl eu hyd, yn y tabl isod.

Nodir isod yr amrywiol gategoriau a hawl cyfreithiol yr hawliau tramwy yma

- Llwybrau Troed Cyhoeddus: llwybr troed yw priffordd y mae gan y cyhoedd hawl tramwy arni ar droed.
- Llwybrau Ceffyl: llwybr ceffyl yw priffordd y mae hawl tramwy arni ar droed, wrth farchogaeth neu arwain ceffyl neu ar gefn beic.
- Cilffyrdd Cyfyngedig: hawl tramwy ar droed, wrth farchogaeth neu arwain ceffyl neu ar gefn beic, ynghyd â hawl i gerbydau heb yriant mecanyddol, gyda neu heb yr hawl i yrru anifeiliaid (RUPPs gynt).
- Cilffyrdd Agored i bob Traffig (BOAT): cilffordd yw hon lle mae'r hawl tramwy'n agored i bob math o ddefnyddwyr, (gan gynnwys defnydd gan gerbydau a dynnir gan geffyl a cherbydau modur), ond a ddefnyddir yn bennaf at yr un dibenion â llwybrau troed a llwybrau ceffyl.

***Ffigur 3 – Hawliau Tramwy yng Ngheredigion*** [7]

| **Categori** | **Hawliau Tramwy yn ôl eu hyd** | | |
|---|---|---|---|
| | **Km** | **Milltiroedd** | **%** |
| Llwybr Troed | 1663 | 1039 | 66% |
| Llwybr Ceffyl | 522 | 326 | 21% |
| Cilffordd Gyfyngedig* | 308 | 193 | 12% |
| Cilffordd Agored i Bob Traffig | 13 | 8 | 1% |
| **Cyfansymiau:** | **2506** | **1566** | **100%** |

* *RUPPs gynt.*

### Tir Mynediad


Cyflwynodd Deddf CROW 2000 hawl mynediad newydd i 'dir mynediad agored' (gan gynnwys tir dros 600 metr, mynyddoedd, rhostiroedd a dolydd a thir comin). Daeth yr hawl hon i rym ym mis Mai 2005. Yng Ngheredigion, mae

25,993 hectar o 'dir mynediad' – 14.2% o arwynebedd tir y Sir. Mae llawer o'r tir mynediad newydd yn rhan o Fynyddoedd Cambria (y mae hawl mynediad i rannau ohonynt eisoes oherwydd eu bod yn Dir Comin y Goron). Y tu allan i'r ardal eang hon, cyfyngir tir mynediad yn gyffredinol i ardaloedd o dir comin.

Gwasanaethir y mwyafrif o ardaloedd o dir mynediad agored gan briffyrdd (ffyrdd cyfagos neu hawliau tramwy cyhoeddus) neu gellir eu cyrraedd o dir comin cyfagos. Dangosodd arolwg pen desg o'r 117 uned o dir comin yng Ngheredigion fod modd cyrraedd 88% o'r safleoedd trwy hawliau tramwy, ffyrdd, neu Dir Comin cyfagos. Er bod hon yn gyfran uchel, mae'n bosibl nad yw rhai o'r hawliau tramwy sy'n gwasanaethu tir comin ar agor ac ar gael yn ymarferol.

Ers cyflwyno'r darpariaethau hyn, mae'r Cyngor wedi cynnal rhaglenni cyfyngedig o welliannau i hawliau tramwy sy'n arwain i dir mynediad o'r prif aneddiadau a lleoliadau eraill ('pyrth') ar gyrion Mynyddoedd Cambria. Ar ben hyn, datblygwyd dulliau o reoli tir mynediad er mwyn cynorthwyo'r defnyddiwr ac i sicrhau arfer da wrth reoli tir. O dan amgylchiadau priodol, ystyrir darparu gatiau/sticlau, arwyddbyst, paneli gwybodaeth a meysydd parcio.

***Ffigur 4 – Mynediad Agored yng Ngheredigion***




## Safleoedd eraill yng nghefn gwlad y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt

Mae gan Geredigion nifer fawr o safleoedd mynediad a bywyd gwyllt a reolir gan nifer o sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae llawer o’r coetiroedd a reolir gan y Comisiwn Coedwigaeth ar agor i’r cyhoedd, ac mae meysydd parcio a chyfleusterau eraill, megis llwybrau gyda chyfeirbwyntiau, yn rhai ohonynt (y safleoedd hamdden pwysicaf yw Nant yr Arian a’r Hafod – mae’r safleoedd yma’n bwysig i gerddwyr a’r rheiny sy’n marchogaeth ceffylau). Mae’r Comisiwn hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth ar deithiau cerdded coetir ar gyfer nifer o’i safleoedd. Mae’r Comisiwn Coedwigaeth dynodi llawer o’i goetir at ddefnydd y cyhoedd o dan Ddeddf CROW 2000. Yn yr ardaloedd hyn gall y cyhoedd fwynhau’r un hawliau mynediad statudol ag ar ‘dir mynediad’ arall.

Mae saith Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn rhannol neu’n gyfangwbl yng Ngheredigion, o dan reolaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru a chyrff cadwraeth eraill. Mae’r safleoedd hyn yn cynnig cyfle i fwynhau diddordebau arbennig ym myd natur. Gwnaed gwelliannau i Warchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron (Tregaron) yn ddiweddar, gan gynnwys datblygu llwybr pob gallu ar draws y warchodfa.


Mae’r Cyngor yn rheoli Gwarchodfeydd Natur Lleol ym Mharc Natur Penglais a Phendinas a Thraeth Tan y Bwlch (Aberystwyth), ynghyd â safleoedd eraill yng nghefn gwlad sy’n bodloni amcanion mynediad a chadwraeth. Mae nifer o safleoedd eraill ar gael i’r cyhoedd, ac fe’u rheolir gan sefydliadau sy’n cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, yr Ymddiriedolaeth Goetir ac eraill.

Darperir cyfleoedd eraill am fynediad trwy gytundebau mynediad â chaniatâd Tir Gofal ac ar goetir preifat trwy gytundebau a wnaed o dan raglenni grantiau’r Comisiwn Coedwigaeth.

Gwelir lleoliad y safleoedd sydd ar agor i’r cyhoedd yn Atodiad 2. Mewn nifer o achosion tynnir sylw at gyfleoedd am fynediad i’r mannau hyn trwy wefannau, mewn cyfeirlyfrau a thaflenni, neu trwy baneli gwybodaeth a chyfryngau eraill. Mae cyfle i wella’r cysylltiadau rhwng y rhwydwaith hawliau tramwy a safleoedd mynediad, ac i godi proffil safleoedd trwy ddarparu gwybodaeth gydlynus.

.

# RHAN 2



## 2.1 ASESIADAU’R CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

Seiliwyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft ar nifer o asesiadau a fu’n archwilio hawliau tramwy a mynediad yn y Sir. Dyma’r asesiadau a gynhaliwyd:

1. Y cyd-destun strategol ar gyfer rheoli hawliau tramwy;
2. Y Map Diffiniol – diffiniad cyfreithiol hawliau tramwy cyhoeddus;
3. Cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy;
4. Rheoli a diogelu hawliau tramwy;
5. Asesiadau o anghenion defnyddwyr; a
6. Chyhoeddusrwydd i hawliau tramwy, mynediad a’u hyrwyddo.

Mae’r asesiadau wedi cael eu hystyried gan Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion, a bu eu sylwadau hwy o gymorth wrth benderfynu ar y cynnwys terfynol. Darparodd ymarferiad ymgynghori yn hwyr yn 2006 (fel rhan o ymgynghoriad cymunedol ehangach ‘Ceredigion 2020’) wybodaeth werthfawr am anghenion defnyddwyr a dyheadau’r gymuned leol o ran hawliau tramwy a mynediad. Mae grwpiau defnyddwyr hefyd wedi cael mewnbwn i’r broses.

Amlinellir prif ganfyddiadau’r asesiadau yn yr adrannau dilynol.

## 2.2 ASESIAD RHIF 1: Y CYD-DESTUN STRATEGOL AR GYFER RHEOLI HAWLIAU TRAMWY

Mae hawliau tramwy yn rhan o wead ein trefi, ein pentrefi a’n hardaloedd gwledig. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig trwy fod yn fodd i fwynhau cefn gwlad a darparu mynediad i’r gweithle, siopau, ysgolion a chyfleusterau eraill. Mae arwyddocâd strategol eang i’r rhwydwaith Hawliau Tramwy, ac mae’n chwarae rhan bwysig yn y meysydd polisi canlynol:

- Datblygu cynaliadwy
- Cynllunio
- Yr Amgylchedd
- Datblygiad economaidd
- Twristiaeth
- Trafnidiaeth
- Chwaraeon a hamdden actif
- Iechyd a lles

Nid yw’r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ddogfen ynysig; yn hytrach mae’n bodoli ochr yn ochr â nifer fawr o strategaethau a chynlluniau a gynhyrchwyd ar lefel genedlaethol a lleol. Y fframwaith polisi hwn sy’n pennu ym mha ffordd y dyrannir adnoddau ar gyfer hawliau tramwy a mynediad. Dylanwadir ar y dull o reoli’r rhwydwaith hawliau tramwy gan doreth o bolisïau a chanllawiau a

ddisgrifir yn llawn yn Asesiad Rhif 1. Mae'r Asesiad yn disgrifio sut mae'r cynlluniau a'r polisïau hyn yn helpu i hysbysu a thywys y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae nifer o'r cynlluniau a'r strategaethau hyn yn arbennig o bwysig, ac fe'u rhestrir yn Ffigur 4 isod (ac yn fanylach yn Atodiad 4).

Bydd cyflwyno elfennau allweddol o'r Strategaeth Gymunedol ('Ceredigion 2020') a Chynllun Corfforaethol y Cyngor yn dibynnu ar weithredu cynigion y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy er rheoli a gwella hawliau tramwy.

***Ffigur 4 – Polisïau a strategaethau allweddol***

| **a. Cynlluniau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol** |
|---|
| 'Strategaeth Amgylcheddol Cymru' LICC (2003) |
| 'Best Foot Forward' Bwrdd Croeso Cymru (2003) |
| 'Saddling up for Success – a Riding Tourism Strategy for Wales' Bwrdd Croeso Cymru (2003) |
| 'Strategaeth Twristiaeth Arfordirol' LICC (i'w chyhoeddi yn 2008) |
| 'Cynllun Gweithredu Bae Ceredigion' LICC (2007) |
| 'Strategaeth Cerdded a Beicio i Gymru' LICC (2003) |
| 'Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol', TraCC (i'w gyhoeddi 2008-09) |
| 'Dringo'n Uwch' LICC (2005) |
| **b. Cynlluniau a strategaethau lleol** |
| 'Ceredigion 2020' Partneriaeth Ceredigion 2020 (2005) |
| 'Strategaeth Gorfforaethol 2004-08' CSC (2004) |
| 'Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion', CSC (2006) |
| 'Cynllun Gweithredu Ardal Twf Twristiaeth Ceredigion', CSC (2002) |
| 'Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Ceredigion', CSC (2004) |

Cynhyrchodd y Cyngor Sir hefyd 'Strategaeth Arfordir a Chefn Gwlad', ar gyfer y cyfnod 2000-2005. Lluniwyd y Strategaeth i ddarparu dull cynaliadwy o reoli adnoddau arfordir a chefn gwlad y Sir, gan gynnwys y rhwydwaith hawliau tramwy. Amlygodd y strategaeth werth economaidd hawliau tramwy a mynediad, a cheisiwyd hyrwyddo cyfleoedd i wella mynediad i gefn gwlad.

Er nad yw'r Strategaeth bellach yn gyfredol, mae'r amcanion ar gyfer rheoli cefn gwlad yn dal yn berthnasol wrth gynhyrchu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy:

- sicrhau bod cyfleoedd mynediad a chyfleusterau yn cydweddu â chymeriad y Sir
- sicrhau bod hawliau tramwy ar agor, yn medru cael eu defnyddio, ac yn derbyn cyhoeddusrwydd

- sicrhau bod defnyddwyr cefn gwlad yn ymwybodol o’r cyfleoedd adloniant
- darparu cyfleoedd ar gyfer adloniant i’r llai abl yng nghefn gwlad
- cynorthwyo anghenion yr economi wledig, arallgyfeirio ffermydd a datblygiad twristiaeth wledig, gan sicrhau bod cyn lleied o wrthdaro â phosibl
- annog cydweithrediad rhwng sefydliadau a grwpiau sy’n ymwneud â darparu cyfleoedd mynediad.

I grynhoi, mae Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion wedi ceisio cyfieithu polisïau cenedlaethol a lleol i gamau gweithredu effeithiol er sicrhau:

a) y bydd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion yn cydnabod pwysigrwydd hawliau tramwy a mynediad i hamdden, datblygu twristiaeth, cludiant cynaliadwy ac iechyd.
b) Proffil uchel i gamau gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy o fewn y Strategaeth Gymunedol.
c) Gellir integreiddio’n effeithiol argymhellion y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy â chynlluniau a strategaethau lleol perthnasol eraill.
d) Gweithio ar y cyd yn effeithiol o fewn yr awdurdod a gyda sefydliadau partner eraill
e) bydd datblygu polisïau a chamau gweithredu Cynllun Gwella Mynediad Lleol yn gwneud y gorau i sicrhau arian ychwanegol ar gyfer cynlluniau mynediad.

## 2.3 ASESIAD RHIF 2: Y MAP DIFFINIOL – DIFFINIAD CYFREITHIOL HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS

Roedd Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn gofyn bod Cynghorau Sir yng Nghymru a Lloegr yn cynhyrchu Map Diffiniol a Datganiad ar gyfer eu hardaloedd. Cynhyrchwyd Map Diffiniol drafft i gychwyn (gan ymgynghori â Chynghorau Plwyf), ac wedyn cafwyd cyfnod ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau a sylwadau. Cadarnhawyd y Map Diffiniol ar 18 Mawrth 1966, a’i gynhyrchu ar raddfa o $2^1/_2$ fodfedd i’r filltir (1:25,000). Cedwir y Datganiad a’r Map Diffiniol yn Swyddfeydd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron.

Cyflwynodd Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ddull newydd a oedd yn caniatáu adolygu’r Map yn barhaus. Yn fwy diweddar, mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 wedi cyflwyno newidiadau pellach o ran cau’r Map Diffiniol i fathau penodol o geisiadau o 2026 ymlaen.

Y Map Diffiniol a’r Datganiad yw’r cofnod cyfreithiol o hawliau tramwy cyhoeddus (llwybrau cerdded cyhoeddus, llwybrau ceffyl, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd agored i bob traffig. Os yw ffordd i’w gweld ar y Map, mae hynny’n dystiolaeth bendant bod gan y cyhoedd yr hawliau hynny ar hyd y ffordd ar ddyddiad perthnasol y Map (18 Mawrth 1966), a bod yr hawliau hynny’n parhau, oni bai bod newid wedi cael ei awdurdodi’n gyfreithlon. Fodd bynnag, gall hawliau fodoli ar ffordd nad yw ar y Map o gwbl, neu gall fod hawliau ychwanegol ar lwybr a gofnodwyd.

Un o effeithiau’r Map Diffiniol yw darparu cofnod pendant, ond nid yw’r hyn nad yw wedi’i gofnodi’n sicr. Mae Deddf CROW 2000 wedi ymdrin â hyn drwy

bennu 2026 fel blwyddyn derfynol ar gyfer cyflwyno hawliadau ynghylch hawliau hanesyddol a oedd yn bodoli cyn 1 Ionawr 1949 er mwyn eu hychwanegu at y Map Diffiniol.

Effaith ymarferol hyn yw ychwanegu elfen o frys wrth ymdrin â hawliadau ar sail tystiolaeth ddogfennol hanesyddol, gan fod pob hawl sy'n bodoli ar ffyrdd o'r fath yn cael ei diddymu wedi'r dyddiad hwn os nad yw wedi'i hychwanegu at y Map Diffiniol. Bydd y darpariaethau hefyd yn atal hawliau uwch neu is a all fod wedi bodoli cyn 1949 rhag cael eu hychwanegu a'u cofnodi ar y Map Diffiniol.

Er bod Deddf CROW 2000 yn caniatáu ailddynodi 'Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus' yn awtomatig fel Cilffyrdd Cyfyngedig, mae un mater a etifeddwyd yn dal heb ei ddatrys. Oherwydd bod y gorchmynion ailddosbarthu wedi'u llunio gan Gyngor Sir Dyfed, mae'n dal yn ofynnol i'r Cyngor ddiweddu'r broses ailddosbarthu. Os bydd gwrthwynebiadau heb eu datrys, mae'n rhaid anfon y broses ymlaen at yr Arolygiaeth Gynllunio i sicrhau penderfyniad.

Dechreuodd Cyngor Sir Dyfed gynt ar y broses o ailddosbarthu yn gynnar yn y 1990au – lluniwyd gorchmynion i ailddosbarthu rhyw 697 o RUPPs a chafodd gorchmynion diwrthwynebiad eu cadarnhau. Fodd bynnag, lle cyflwynwyd gwrthwynebiad, ni ellid cadarnhau'r gorchmynion ailddosbarthu, ac etifeddodd y Cyngor Sir 349 o RUPPs oedd yn weddill. Mae cynnydd wedi'i wneud i ddatrys y gwrthwynebiadau, ond mae nifer fawr o orchmynion ailddosbarthu yn dal heb eu diweddu (cyfanswm o 284 o lwybrau ym mis Mehefin 2007).

Ceir rhestr o'r prif brosesau hawliau tramwy sydd yng ngofal y Cyngor Sir yn Ffigur 5. Mae rhagor o fanylion am y prosesau cyfreithiol yn yr Asesiad.

***Ffigur 5 – Prosesau cyfreithiol***

| Deddfwriaeth | Categori | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | A. 53, Atodlen 14 | Addasu'r Map Diffiniol |
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | A. 54, Atodlen 14 | Ailddosbarthu statws RUPPs |
| Deddf Priffyrdd 1980 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | A. 116 & 119<br>A. 257 | Gorchmynion Dargyfeirio Llwybrau Cyhoeddus |
| Deddf Priffyrdd 1980 | A. 118 | Gorchmynion Diddymu Llwybrau Cyhoeddus |
| Deddf Priffyrdd 1980 | A. 25 & 26 | Cytundebau a Gorchmynion Creu |
| Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | A. 258 | Gorchmynion Diddymu |

Figure 6 provides information for Ceredigion about path orders in respect of the continuous review of the Definitive Map and other legal changes.

*Ffigur 6 – Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus*

| Deddfwriaeth | Categori | Disgrifiad | Gorchmynion a broseswyd 1996-2006 | Gorchmynion sy'n weddill (Chwefror 2006) |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | A. 53, Atodlen 14 | Addasu'r Map Diffiniol | 13 | 22 |
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | A. 54, Atodlen 14 | Ailddosbarthu statws RUPPs | 65 | 284 |
| Deddf Priffyrdd 1980 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | A. 116 & 119<br>A. 257 | Gorchmynion Dargyfeirio Llwybrau Cyhoeddus | 90 | 82 |
| Deddf Priffyrdd 1980 | A. 118 | Gorchmynion Diddymu Llwybrau Cyhoeddus | 2 | 2 |
| Deddf Priffyrdd 1980 | A. 25 & 26 | Cytundebau a Gorchmynion Creu | 1 | 25 |
| Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | A. 258 | Gorchmynion Diddymu | 0 | 0 |
| | | CYFANSWM | **171** | **415** |

Nodir isod yr elfennau allweddol parthed y Map Diffiniol y bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn delio ag ef:

a) Adolygu'r Map Diffiniol er sicrhau y cofnodwyd hawliau tramwy cyfredol ym mhob cymuned yn gywir, o ran eu statws a'u lleoliad.
b) Adolygu unrhyw anghysondeb yn y Map Diffiniol (megis llwybrau sy'n gorffen ar ffin cymuned neu sir, ac edrych a yw statws y llwybr yn amrywio rhwng y gymuned neu ffin y sir)
c) Ymchwil i'r newidiadau a argymhellwyd o ran adolygiad 1970 o'r Map Diffiniol, gan ystyried Adran 56 Deddf CROW 2000 (a fydd yn golygu cau'r Map Diffiniol i geisiadau newydd yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol o 1af Ionawr 2026).
d) Penderfynu ar geisiadau Adran 53 Atodlen 14 o fewn 12 mis wedi derbyn cais cywir. Fel arfer gwneir Gorchmynion o fewn 12 mis i dderbyn cais cywir. Fel arfer gwneir Gorchmynion o fewn 6 mis i'r penderfyniad Pwyllgor perthnasol.

e) Ceisio diddymu gwrthwynebiadau o geisiadau Adran 54 (ailddosbarthu RUPPs) a chadarnhau Gorchmynion, neu gyfeirio gwrthwynebiadau i'r Arolygaeth Gynllunio dan Atodlen 15.
f) Rhoi blaenoriaeth i Orchmynion Llwybrau Cyhoeddus ar gyfer creu a gwyro llwybrau cyhoeddus mewn amgylchiadau penodol:
   - Ceisiadau talu ffioedd
   - Ceisiadau brys neu gynhennus, er enghraifft, ar gyfer llwybrau sy'n debygol o gael eu colli oherwydd datblygiad,
   - Llwybrau a ddefnyddir yn aml/ llwybrau blaenoriaeth lle bo rhwystr i fynediad ac nid oes ffordd arall ar bwys ar gael; neu
   - Llwybrau lle y mae goblygiadau diogelwch ffyrdd sylweddol.

## 2.4 ASESIAD RHIF 3: CYFLWR Y RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS

Bernir bod cyflwr llwybrau cyhoeddus yng Ngheredigion, ac yn wir yng Nghymru gyfan, yn wael at ei gilydd[3]. Ni chyrhaeddwyd y targedau cenedlaethol ar gyfer sicrhau bod llwybrau cyhoeddus ar gael ('Targed 2000'), a daeth arolwg o lwybrau yng Nghymru a gwblhawyd yn 2002 (gweler isod) i'r casgliad bod cyflwr gwael y rhwydwaith o lwybrau yn atal ei botensial rhag cael ei gyflawni o ran darparu mynediad i gefn gwlad, twristiaeth gynaliadwy, defnydd amwynder gan bobl leol, a sicrhau'r manteision iechyd posibl i ddefnyddwyr.

Cynhaliwyd asesiad cynhwysfawr yn 2002 pan gomisiynodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru arolwg o hawliau tramwy yng Nghymru (drwy exeGesIS SDM Ltd.) gyda'r bwriad o ganfod cyflwr y rhwydwaith o lwybrau yn 2002 a symud tuag at gyrraedd y targed cenedlaethol. Roedd hefyd yn darparu amcangyfrif o'r adnoddau angenrheidiol i gynnal hawliau tramwy cyhoeddus yn briodol yng Nghymru. Mae'r arolwg yn darparu gwybodaeth llinell sylfaen werthfawr ynghylch lleoliad dodrefn ar lwybrau a rhwystrau sydd naill ai'n anghyfleus neu'n peri nad oes modd eu defnyddio.

Daeth yr arolwg i'r casgliad y bydd parhau i fuddsoddi ar y lefelau diweddar yn golygu bod cyflwr y rhwydwaith yn gwaethygu o'r cyflwr presennol gwael. Ar sail canfyddiadau'r arolwg, cyfrifodd yr astudiaeth mai cost sicrhau bod holl rwydwaith Cymru mewn cyflwr boddhaol fyddai rhyw £26 miliwn. Wedi hynny, amcangyfrifir mai rhyw £8.37 miliwn fyddai cyfanswm y gost o'i gynnal yn flynyddol. Petai'r costau uwchraddio'n cael eu dosbarthu dros gyfnod o 5 mlynedd ac yn cael eu hychwanegu at y costau cynnal blynyddol, amcangyfrifir buddsoddiad blynyddol (ym mhob un o'r 5 mlynedd nesaf) o £13.6 miliwn y flwyddyn neu ryw £390 y kilometr y flwyddyn.

O gymhwyso'r cyfrifiadau hyn i Geredigion ar sail pro-rata (h.y. ar sail cyfran y Sir o'r hawliau tramwy) gellir mesur y buddsoddiad angenrheidiol i wella cyflwr hawliau tramwy:

---

[3] 'Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru 2002' Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2003

- Amcangyfrifir mai cyfanswm cost uwchraddio'r rhwydwaith yw rhyw £1.91 miliwn (£762 y km);
- Cost cynnal rhwydwaith a uwchraddiwyd yw rhyw £620,000 (£247 y km);
- Byddai angen gwario rhyw £980,000 (£391 y km) bob blwyddyn yn ystod y pum mlynedd nesaf i uwchraddio a chynnal y rhwydwaith.


Mae'r gyllideb flynyddol hon ar gyfer gwaith ar hawliau tramwy (heb gynnwys gwariant ar brosiectau arbennig megis Llwybr yr Arfordir) yn rhyw £130,000 y flwyddyn, sy'n cyfateb i £52 y km. Ar y sail hon, mae cyllidebau blynyddol hawliau tramwy yng Ngheredigion yn cynrychioli 13% yn unig o'r gwariant a amcangyfrifwyd ar gyfer cynnal rhaglen bum mlynedd i uwchraddio a chynnal y rhwydwaith.  Dylid nodi hefyd nad yw'r gymhariaeth hon yn ystyried effeithiau chwyddiant ers i arolwg CCGC gael ei gynnal yn 2002 na chwaith yn ystyried y gofynion staffio i gwblhau rhaglenni gwaith ehangach.

Mae rhagor o wybodaeth am gyflwr y llwybrau ar gael trwy'r arolygon llwybrau blynyddol sy'n mesur perfformiad yr awdurdod lleol (ar sail arolwg sampl o 5%). Bu'r Dangosydd Perfformiad cyfredol yn ei le ers 2001-02 ac mae'n mesur sampl o lwybrau i sicrhau amcangyfrif o ganran y llwybrau troed a'r hawliau tramwy eraill sy'n 'hawdd' i'r cyhoedd eu defnyddio ac yn cynnwys arwyddbyst. Ystyr 'hawdd eu defnyddio' yw:

- yn cynnwys arwyddbyst neu gyfeirbwyntiau lle maent yn gadael y ffordd, yn unol â dyletswydd yr awdurdod o dan Ddeddf Cefn Gwlad 1968;
- heb rwystrau anghyfreithlon neu ymyrraeth arall (gan gynnwys llystyfiant sy'n gorchuddio'r llwybr) i hawl tramwy'r cyhoedd;
- rhwystrau arwyneb a chyfreithlon (e.e. sticlau, gatiau) mewn cyflwr da ac o'r safon angenrheidiol i alluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r ffordd heb anghyfleuster diangen.

Ceir canlyniadau Ceredigion rhwng 2001-02 a 2007-08, a chymhariaeth â sefyllfa Cymru gyfan, yn y tabl isod.

***Ffigur 7 – Dangosyddion Perfformiad: cymharu Ceredigion a Chymru***



*Cyfanswm holl hyd y llwybrau troed a'r hawliau tramwy eraill sy'n hawdd i'r cyhoedd eu defnyddio.*

*(a) Nid yw ffigur Cymru ar gyfer 2001-02 ar gael*
*(b) Bernir bod ffigur Cymru ar gyfer 2003-04 yn annibynadwy (ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru)*

*Ffynhonnell: Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru (DPLlCC 6.10 & CMT/008)*

Er gwaethaf y cafeat ynghylch 'ffin hyder' oherwydd maint y sampl, mae'r canlyniadau wedi dangos gwelliant cyffredinol yng nghyflwr hawliau tramwy Ceredigion. Serch hynny, mae'n dal yn wir y bernir nad yw dros hanner y llwybrau cyhoeddus yn y Sir mewn cyflwr 'hawdd eu defnyddio' gan y cyhoedd. Ar ben hynny, gwelwyd gwyrdroad yng nghanlyniadau'r flwyddyn flaenorol yn DP Ceredigion ar gyfer 2006-07. Efallai bydd ffigurau DP 2007-08 o gymorth i egluro'r tueddiad.

Mae nifer o ffactorau sy'n debygol o fod yn gyfrifol am y gwelliant cyffredinol yng nghyflwr hawliau tramwy yng Ngheredigion yn y blynyddoedd diwethaf:

- Cynnydd yn staff hawliau tramwy'r Sir (yn sgîl ariannu Deddf CROW 2000).
- Prosiectau gwella sylweddol ar gyfer hawliau tramwy a ariannwyd gan yr UE (cynllun 'Twristiaeth Werdd' a phrosiect Llwybr yr Arfordir).
- Gwelliannau i lwybrau yn sgîl nifer o raglenni eraill (yn fwyaf arbennig y Cynllun Llwybrau Cymunedol blynyddol, prosiectau llwybrau a ariannwyd trwy Gynllun Ardal Twf Twristiaeth Ceredigion a thrwy gynlluniau gwaith gwirfoddol).
- Rhaglenni blynyddol ar gyfer gosod arwyddbyst ar hawliau tramwy.
- Gwelliannau yn sgîl cynllun Tir Gofal.

## 2.5 ASESIAD RHIF 4: RHEOLI A DIOGELU HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS

### 2.5.1 Cyfrifoldebau Hawliau Tramwy

Gan mai'r Cyngor Sir yw'r awdurdod priffyrdd lleol, mae dyletswydd arno i gyhoeddi a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau hawl tramwy. Y pwrs cyhoeddus sydd i dalu am gynnal y mwyafrif o hawliau tramwy cyhoeddus, ac mae cyfrifoldeb ar Gynghorau i gynnal yr arwyneb. Ceir rhestr o brif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol o ran hawliau tramwy yn Atodiad 3.

Ar ben hyn, mae Deddf Priffyrdd 1980 yn rhoi pŵer i gynghorau cymuned gynnal a gwella hawliau tramwy. Dros gyfnod o flynyddoedd lawer, mae nifer o gynghorau cymuned wedi gweithio ar hawliau tramwy. Yn 2004 cyflwynodd y Cyngor Sir y Cynllun Llwybrau Cymunedol sy'n darparu grantiau (75%) ar gyfer cynghorau cymuned er mwyn cynnal a gwella llwybrau.

Tirfeddianwyr sy'n gyffredinol gyfrifol am gynnal gatiau a sticlau ar hawliau tramwy. Gallant adennill 25% o gostau atgyweirio ac adnewyddu sticlau a gatiau. Mae gan dirfeddianwyr gyfrifoldebau hefyd o ran llystyfiant sy'n gorchuddio'r llwybr a thyfu cnydau ar hawliau tramwy.

### 2.5.2 Hawliau Tramwy – Diogelu a Rheoli

Isod nodir yr amrywiol weithgareddau allweddol a gyflawnir gan y Cyngor er diogelu a rheoli hawliau tramwy:

#### *a. Gorfodaeth*

Mae'n ofynnol i'r Cyngor 'gyhoeddi a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau'r briffordd' yn ôl Adran 130 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Gall y Cyngor gyflwyno rhybudd i dirfeddiannwr glirio rhwystr, cwblhau gwaith ac adennill costau gwaith o'r fath neu erlyn unigolion am droseddau.

Nododd asesiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i gyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy mai'r rhwystr mwyaf cyffredin sy'n atal pobl rhag defnyddio llwybr yw perth, ffens neu wal ar draws y llwybr (35.2% o'r holl rwystrau). Y tirfeddiannwr sy'n gyfrifol yn yr achosion hyn.

Mae'r Cyngor yn ceisio trafod materion gorfodaeth drwy gydweithio â thirfeddianwyr. Gall fod angen amlygu'r posibilrwydd o gamau cyfreithiol o dan rai amgylchiadau, pan fetho popeth arall, gan gadw mewn cof bod camau cyfreithiol yn broses sy'n costio llawer o ran adnoddau.

Cafwyd darpariaeth yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i'r cyhoedd gyflwyno rhybudd i awdurdodau lleol, ac wedi hynny gyflwyno cais i Lys yr Ynadon, er mwyn clirio rhwystrau ar hawliau tramwy o fewn cyfnod penodedig. Mae'r Cyngor Sir wedi derbyn cyfanswm o 36 rhybudd ers i'r ddarpariaeth hon gychwyn ar 1 Ebrill 2004.

#### *b. Cwynion ynghylch Llwybrau*

Ar hyn o bryd mae ôl-groniad sylweddol o gwynion ynghylch hawliau tramwy (347 o gwynion erbyn Ionawr 2007). Mae'n debygol nad yw nifer fawr o'r rhain yn ddilys bellach neu eu bod wedi cael eu datrys mewn modd arall (e.e. eu datrys trwy raglenni gwaith ar lwybrau neu gan dirfeddianwyr yn sgîl cytundebau Tir Gofal). Rhoddwyd peth ystyriaeth gychwynnol i'r mater hwn, ond byddai angen ymchwilio ymhellach iddo i asesu'r ôl-groniad yn fanwl gywir.

#### *c. Rhaglenni Rheoli Llwybrau*

Dyma'r prif raglenni gwaith y mae'r Cyngor yn eu cynnal i reoli llwybrau ar hyn o bryd:

- Torri prysgwydd: Ar hyn o bryd mae 134 km (84 milltir) o hawliau tramwy yn y rhaglen hon, rhyw 5.4% o'r rhwydwaith llwybrau.
- Gosod arwyddbyst a chyfeirbwyntiau: Rhaglenni blynyddol o osod arwyddbyst ar lwybrau o'r briffordd y rhoddwyd metlin arni. Gosodir cyfeirbwyntiau'n bennaf ar hyd llwybrau hamdden (gyda chyfeirbwyntiau trawiadol mewn rhai achosion i ddynodi llwybrau penodol). Mae'r Cyngor yn dilyn arweiniad CCGC wrth osod cyfeirbwyntiau ar hawliau tramwy.

- Y Cynllun Llwybrau Cymunedol: Cyflwynodd y Cyngor Sir y Cynllun Llwybrau Cymunedol yn 2004 i gefnogi cynghorau cymuned yn y gwaith o gynnal a gwella llwybrau. Mae'r cynllun yn cynnwys ariannu ar gyfer cynghorau cymuned (25% o gost y gwaith) a chefnogaeth CCGC ar ffurf grantiau.
- Rheoli Ardal a gwaith gwirfoddol: Mae'r cynlluniau a gynhwysir mewn cyllidebau ardal fel arfer yn cynnwys gwaith cynnal a gwella ar raddfa fach. Gall gwaith ar lwybrau fod wedi'i gynllunio ymlaen llaw neu'n waith ymatebol. Mae Gwirfoddolwyr Llwybrau Troed Cymdeithas y Crwydriaid wedi gwneud cyfraniad pwysig i wella llwybrau dros gyfnod o sawl blwyddyn.
- Rhaglenni Gwella Llwybrau: Mae'r prosiectau allweddol (a gefnogwyd gan arian grantiau allanol) wedi cynnwys:
  - Amcan 1 (ERDF) – Prosiect Llwybr Arfordirol Ceredigion
  - Llywodraeth Cynulliad Cymru – Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir
  - Ardal Twf Twristiaeth Ceredigion – gwelliannau i'r llwybrau a hyrwyddir o Lanbedr i Aberaeron ac o'r Borth i Bontarfynach
  - Prosiect Ysbryd y Glowyr – datblygu'r llwybr o Bontarfynach i Bontrhydfendigaid a phum taith gylchol yn ardal y prosiect.
  - Prosiect Ffyrdd Actif o Fyw – Llan-non (grisiau i'r traeth), gosod cyfeirbwyntiau ar y llwybr o Bontarfynach i Bontrhydfendigaid a gwella'r llwybr yn Ynyslas.

### *ch. Cysylltiadau Llwybrau â Thir Mynediad Agored*

Darparodd Deddf CROW 2000 ar gyfer mynediad ar droed i dir 'mynediad agored' (y diffiniad o hynny yw mynydd-dir, rhostir, gweunydd a dolydd, a thir comin). Roedd y Ddeddf hefyd yn caniatáu ar gyfer dynodi tir fel tir mynediad. Ers i'r darpariaethau hyn gael eu cyflwyno, mae'r Cyngor wedi cynnal rhaglenni cyfyngedig o welliannau i hawliau tramwy sy'n arwain i dir mynediad o aneddiadau allweddol a lleoliadau eraill ('pyrth') ar gyrion Mynyddoedd Cambria.

### *d. 'Mynediad i Bawb'*

Mae deddfwriaeth ddiweddar yn gofyn bod darpariaeth ar gyfer yr anabl yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r ddarpariaeth ar gyfer defnyddwyr eraill llwybrau. Rhaid i anghenion pobl ddall, pobl â golwg rhannol ac eraill sydd â phroblemau symudedd gael eu hystyried gan y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (Adran 60, Deddf CROW). Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried anghenion pobl ag anableddau a gwella mynediad i wasanaethau.

Nid oes gwybodaeth fanwl gywir ynghylch hygyrchedd y rhwydwaith i bobl â phroblemau symudedd, ac mae llawer o'r hawliau tramwy cyhoeddus yn debygol o beri trafferthion i ddefnyddwyr anabl. Bydd topograffi bryniog llawer o rannau o'r sir a natur anghysbell rhai llwybrau yn rhwystr i rai defnyddwyr. Ffactorau eraill a all rwystro defnydd yw materion cynnal a chadw cyffredinol (problemau arwyneb a llystyfiant gormodol). Gall pobl â phroblemau symudedd gael eu cyfyngu hefyd gan strwythurau ar hawliau tramwy, sticlau yn fwyaf

arbennig. Y tirfeddiannwr sy’n gyfrifol am strwythurau megis sticlau a gatiau, ac o ganlyniad ni ellir cyflawni unrhyw welliant (megis newid sticil am fwlch neu gât) ond gyda chaniatâd y tirfeddiannwr.

Mae canran uchel o drigolion y Sir yn oedrannus (mae 18.3% o’r boblogaeth breswyl dros 65). Gall person oedrannus fod yn gwbl alluog i gerdded ond cael trafferth, er enghraifft, wrth fynd dros sticil. Yn yr un modd, gall person sydd â chadair wthio gael bod sticlau a ffactorau eraill yn cyfyngu arno/arni pan fydd yng nghefn gwlad.

Mae Adran 69 o Ddeddf CROW 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried anghenion pobl sydd â phroblemau symudedd wrth awdurdodi codi rhwystrau ar hawliau tramwy. Gellir cynyddu hygyrchedd hefyd drwy wella’r wybodaeth am lwybrau a safleoedd hygyrch. Byddai cynhyrchu gwybodaeth a chyhoeddusrwydd priodol yn caniatáu i unigolion wneud penderfyniad gwybodus ynghylch addasrwydd llwybr neu safle ar gyfer eu hamgylchiadau personol eu hunain. Trwy’r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, gall y Cyngor ddatblygu dulliau o ddarparu mynediad gyda lleiafswm o gyfyngiadau. Mae’r canllawiau presennol[4] yn cynnig ffordd ymlaen i’r Cyngor o ran sicrhau bod cefn gwlad yn hygyrch i gynifer o ddefnyddwyr â phosibl. Egwyddor mynediad gyda lleiafswm o gyfyngiadau yw bod rhaid i bob gwaith, boed yn waith gwella a gynlluniwyd neu’n waith cynnal ad hoc, fodloni’r safonau uchaf posibl ar gyfer y gwaith hwnnw.

Bydd y Cynllun yn cydnabod fod angen archwilio ymhellach er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn ddigonol â chyfleoedd mynediad i bobl â phroblemau symudedd.

### *dd. Cerbydau Hamdden Modur – prosiect peilot Mynyddoedd Cambria:*

Bu Mynyddoedd Cambria yn ffocws defnydd cerbydau hamdden modur yng nghanolbarth Cymru am nifer o flynyddoedd. Mae’n ymddangos fod y gweithgaredd yma’n cynyddu fodd bynnag ni chaiff ei reoli mewn modd systematig gan y tri Chyngor Sir sy’n gyfrifol am yr ardal (Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin). Bu i’r cynnydd defnydd yma achosi pryder parthed cynaladwyedd tymor hir a defnydd (weithiau defnydd anghyfreithlon) o Ffyrdd Ddiddosbarth, cilffyrdd a chilffyrdd cyfyngedig ag arwynebedd caled ac effaith y defnydd hwnnw ar reoli tir a budd cymunedol.

Yn ogystal mae pryderon am yr effaith ar safleoedd bywyd gwyllt a ddiogelir, safleoedd o bwysigrwydd archeolegol a hanesyddol yn ogystal ag ardaloedd sensitif eraill ym mynyddoedd Cambria. Felly, bydd angen cael cydbwysedd rhwng diogelu safleoedd statudol ac ardaloedd sensitif â defnydd cyfreithiol cerbydau modur hamdden gan hefyd roi cyfrif am y cyfraniad gwerthfawr all gweithgaredd o’r fath ei gyflwyno i’r economi lleol.

Oherwydd lleoliad a daearyddiaeth Mynyddoedd Cambria, cyflawnir gweithredu mwyaf effeithiol drwy weithio mewn partneriaeth i reoli’r ardal. Bu

---

4 ‘BT Countryside for All: good practice guide to disabled peoples access in the countryside’, BT/Fieldfare Trust (2005)
‘By all Reasonable Means: inclusive access to the outdoors’, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2006)

i'r Cynghorau Sir (Powys, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru weithio gyda'i gilydd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill i lunio mesurau rheoli ar gyfer cerbydau modur hamdden.

Datblygwyd y prosiect peilot yma yn sgil gwaith a wnaed gan Grŵp Llywio Cymru ar Feicio Modur oddi ar y ffordd, a wnaeth nodi'r angen i ddarparu canllawiau fframwaith ar gyfer asiantaethau amrywiol. Gofynnwyd i Gyngor Cefn Gwlad Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddechrau ar nifer o brosiectau peilot ar draws Cymru gan ddarparu arian grant ar gyfer y prosiect yma.

Penodwyd Ymgynghorwyr yn 2008 (Exegesis SDM Cyf). Eu briff hwy oedd

- Nodi llwybrau y gellir eu hystyried yn gynaliadwy ar gyfer defnydd cerbydau modur.
- Cael mynediad i'r lefel o fuddsoddiad angenrheidiol er mwyn rheoli'r llwybrau
- Gosod opsiynau rheoli posib.
- Cynhyrchu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer rheoli cerbydau modur hamdden

Ym mis Awst bu i'r ymgynghorwyr gynhyrchu strategaeth a chynllun gweithredu drafft ar gyfer rheoli cerbydau modur hamdden ar Fynyddoedd Cambria (pan ysgrifennwyd y ddogfen hon roedd y strategaeth ar ymgynghoriad cyhoeddus). Bydd y strategaeth derfynol yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r gweithgareddau yn y dyfodol gan ddarparu arweiniad hefyd ar gyfer penderfyniadau ar adnoddau yn y dyfodol.

### 2.5.3 Adnoddau - Ariannu

Mae'r adnoddau ar gyfer rheoli hawliau tramwy yn ffactor hollbwysig wrth gymryd camau i wella cyflwr hawliau tramwy, nid yng Ngheredigion yn unig, ond yng Nghymru gyfan. Amlygodd astudiaeth a gynhaliwyd ar ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn 2002 raddfa'r buddsoddi angenrheidiol i sicrhau bod y rhwydwaith llwybrau yng Nghymru yn cyrraedd cyflwr boddhaol.

***Ffigur 7 – Cyllideb Hawliau Tramwy Ceredigion 2007-08***

| **Categorïau Cyllideb** | ***Swm*** |
|---|---|
| Torri prysgwydd | £23,000 |
| Gosod arwyddbyst | £8,000 |
| Gwaith rheoli ardal (gan gynnwys gwaith Gwirfoddolwyr) | £66,000 |
| Cynllun Llwybrau Cymunedol (mewnbwn o 75%) | £18,550 |
| Prosiectau llwybrau (gan gynnwys gwelliannau 'Mynediad Agored' i lwybrau) | £17,205 |
| Cyfraniadau i dirfeddianwyr | £50 |
| **Cyfanswm:** | ***£132,805*** |

Cyllideb flynyddol y Cyngor Sir ar gyfer gwaith ar hawliau tramwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw rhyw £130,000: nid yw'r swm hwn yn cynnwys prosiectau llwybrau a gwaith ar Gilffyrdd[10]. Nid yw chwaith yn cynnwys costau staff a chefnogaeth. O fewn y gyllideb hon mae elfen o gymorth grant CCGC ar gyfer gwelliannau i lwybrau a mynediad (yn 2007-08 roedd y ffigur hwn yn rhyw £15,000).

Bydd LLCC yn ychwanegu at hyn drwy raglen ariannu tair blynedd ar gyfer gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Bydd y swm ar gael yn 2008 – 09 (bydd blwyddyn gyntaf y rhaglen yn £94,000).

Mae'r Cyngor wedi ceisio ychwanegu at y buddsoddi mewn prosiectau hawliau tramwy a mynediad trwy arian grantiau ar gyfer datblygu llwybrau strategol a phrosiectau eraill (e.e. Prosiect Llwybr Arfordir Ceredigion). Daw manteision sylweddol i hamdden, twristiaeth ac iechyd yn naturiol yn sgîl datblygu a gwella llwybrau strategol.

Serch hynny, mae goblygiadau cyllidebol i estyn y rhwydwaith o lwybrau strategol ac eraill. Er y gellir sicrhau cymorth grant ar gyfer gwaith gwella, rhaid darparu ar gyfer goblygiadau refeniw parhaus gwelliannau mynediad oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor. Mae terfyn ar y gallu i gynnal rhwydwaith o lwybrau o fewn lefel yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.

### 2.5.4 Adnoddau - Staff

Mae'r staff canlynol yn ymwneud â'r Map Diffiniol, Hawliau Tramwy a swyddogaethau mynediad yn yr Uned Arfordir a Chefn Gwlad ar hyn o bryd:

***Y Map Diffiniol a mynediad:***

- Swyddog Hawliau Tramwy (Map Diffiniol) a Thir Comin
- Cynorthwy-ydd y Map Diffiniol
- Swyddog Prosiect Mynediad i'r Arfordir
- Cynorthwy-ydd Tir Comin / Mynediad

***Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus:***

- Swyddog Hawliau Tramwy a Mynediad
- Ceidwaid Hawliau Tramwy a Chefn Gwlad (4 swydd)

Lluniwyd system rheoli ardal, gyda phob Ceidwad yn gysylltiedig ag ardal ddaearyddol o fewn y Sir: gwelir yr ardaloedd rheoli hawliau tramwy yn Atodiad 5. O bryd i'w gilydd ychwanegir at yr adnoddau staff ar ffurf cefnogaeth swyddogion prosiect dros dro ar gyfer mentrau llwybrau a mynediad a gefnogir gan grantiau (e.e. Prosiect Llwybr Arfordir Ceredigion, Rhaglen Mynediad i'r Arfordir).

Canfu adroddiad gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, 'PROW Staff Resources in Wales: An Assessment of Needs 2005' mai amser cyfyngedig y staff a nodid fel y rheswm mwyaf cyffredin dros anawsterau perfformiad awdurdodau. Y meysydd gwaith allweddol lle roedd angen staff ychwanegol oedd 'gwaith ar y map Diffiniol' a 'chynnal a gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus'. Adlewyrchir y sefyllfa hon yng Ngheredigion.

## 2.6 ASESIAD RHIF 5: ANGHENION DEFNYDDWYR

Bu'r asesiad hwn o Anghenion Defnyddwyr yn edrych ar farn pobl ynghylch hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad. Edrychwyd ar sut mae'r rhwydwaith hawliau tramwy yn cael ei ddefnyddio, barn a dyheadau'r gymuned leol ac ymwelwyr, a'r ffactorau sydd ar hyn o bryd yn amharu ar ddefnydd o lwybrau cyhoeddus a chefn gwlad yn gyffredinol neu'n ei atal. Defnyddiwyd nifer o astudiaethau ar hawliau tramwy a mynediad, arolygon boddhad ymwelwyr ac arolygon o ddefnyddwyr llwybr yr arfordir:

- Holiadur Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion 2006
- Arolwg o farn ymwelwyr ynghylch mynediad i gefn gwlad Ceredigion 2005 (Prifysgol Aberystwyth)
- Arolwg Defnyddwyr Llwybr Arfordir Ceredigion 2004

Roedd methodoleg wahanol i'r astudiaethau ac ni ellid cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol. Serch hynny, roeddent yn rhoi cipolwg defnyddiol ar sut mae hawliau tramwy (a safleoedd mynediad) yn diwallu anghenion y cyhoedd yn awr a'u hanghenion tebygol yn y dyfodol. Amlygir rhai o brif ganfyddiadau'r astudiaethau hyn isod.


### 2.6.1 Arolwg Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion - 2006

Ceisiwyd barn trigolion lleol mewn cyfres o saith cyfarfod 'Cyswllt Cymunedol' a gynhaliwyd yn y Sir ym misoedd Hydref a Thachwedd 2006. Ar ben hynny, roedd yr holiadur a ddefnyddiwyd yn y cyfarfodydd hyn ar gael ar wefan Ceredigion a mewnrwyd y Cyngor ('Cardinet'). Dychwelwyd cyfanswm o 176 o holiaduron (yr oedd 174 ohonynt oddi wrth bobl oedd yn byw yng Ngheredigion). Ceisiwyd barn ar natur yr ymweliadau â chefn gwlad, y defnydd o hawliau tramwy, gallu corfforol defnyddwyr llwybrau, pwysigrwydd gwahanol fathau o lwybrau, a sut cesglir gwybodaeth am gyfleoedd mynediad.

<u>Mynediad i Gefn Gwlad</u>

Dangosodd y canlyniadau, pan asesir yr ymweliadau mwy rheolaidd (h.y. bob dydd hyd at rai wythnosol), mai hawliau tramwy yw'r math ar fynediad i gefn gwlad a ddefnyddir amlaf, gan gyfrif am 31% o'r ymatebion.


***Ffigur 9 – Mynediad i gefn gwlad: ymweliadau rheolaidd***



Rhesymau dros beidio â defnyddio hawliau tramwy

Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros beidio â defnyddio hawliau tramwy oedd rhwystrau ar lwybrau (18%). O'u cyfuno, mae'r tri phryder pwysicaf (rhwystrau ar lwybrau, gordyfiant ar lwybrau ac arwyddion/cyfeirbwyntiau gwael) yn cyfrif am 50% o'r holl ymatebion.


***Ffigur 10 – Rhesymau dros beidio â defnyddio hawliau tramwy***




Gwella hawliau tramwy a'u defnydd

Barnwyd mai'r gwelliannau pwysicaf a oedd yn ofynnol ar gyfer hawliau tramwy a'u defnydd oedd gwell arwyddbyst a chyfeirbwyntiau (23%) a dileu rhwystrau/cadw llwybrau'n glir (22.8%), gyda gwell gwybodaeth am fynediad i gefn gwlad a'i hyrwyddo yn dilyn (17.6%).

***Ffigur 11 – Blaenoriaethau ar gyfer gwella hawliau tramwy***



### 2.6.2 Arolwg o farn ymwelwyr ynghylch mynediad i gefn gwlad Ceredigion 2005 (Prifysgol Aberystwyth)


Cynhaliwyd yr arolwg fel rhan o Fenter Ansawdd Twristiaeth Ceredigion. Nodau'r astudiaeth oedd canfod pwy sy'n ymweld â chefn gwlad Ceredigion, beth sy'n dylanwadu arnynt i ddewis ymweld â Cheredigion; pa agweddau ar reoli mynediad i gefn gwlad oedd yn bwysig i bobl; a pha mor dda roedd cefn gwlad yn cael ei reoli. Roedd lleoliadau'r arolwg yn cynnwys safleoedd ar lwybr yr arfordir, safleoedd a reolir (megis Nant yr Arian ac Ynyslas), llwybrau a reolir (gan gynnwys llwybr Gwarchodfa Natur Tregaron) a safleoedd yn yr ardal gefn gwlad ehangach. Bu cyfanswm o 211 o bobl yn rhan o'r arolwg.

Roedd y canlyniadau'n debyg i eiddo astudiaethau twristiaeth eraill, gan y gwelwyd bod 22.7% o'r ymwelwyr yn dod o Ganolbarth Lloegr a 17% o Gymru (o fannau y tu allan i Geredigion). Canfu'r arolwg mai prif ddiben yr ymweliadau oedd gwyliau (39.8%) neu egwyl fer (13.2%).

Cerdded oedd y gweithgaredd pwysicaf o bell ffordd wrth ymweld â chefn gwlad Ceredigion (62.7% o'r ymatebwyr). Roedd y gweithgareddau eraill yn cynnwys gweld y golygfeydd (20.6%) a gwylio adar/bywyd gwyllt (9.6%)

<u>Mynediad i Gefn Gwlad a Pherfformiad</u>

***Ffigur 12 – Mynediad i Gefn Gwlad: Dadansoddiad Perfformiad Pwysigrwydd***



Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio pwysigrwydd rhai agweddau ar fynediad a cherdded yng Ngheredigion (wrth ddewis cerdded a/neu gael mynediad i gefn gwlad), ac yna nodi eu boddhad o ran eu profiad o'r elfennau hynny. Po agosaf yw'r dangosyddion pwysigrwydd a pherfformiad, gorau yw'r ardal o ran bodloni disgwyliadau ymwelwyr yn achos yr elfen benodol honno. Po fwyaf yw'r bwlch rhwng pwysigrwydd a pherfformiad, mwyaf anfodlon yw ymwelwyr ar yr elfen honno o'r profiad.

Dengys y tabl fod rhai agweddau ar fynediad i gefn gwlad megis safleoedd a llwybrau a reolir yn gymharol sefydlog. Fodd bynnag, mae eraill megis baw cŵn, cynnal sticlau a gatiau, llwybrau i bob gallu, cyrchfannau/pellteroedd ar arwyddbyst yn sgorio'n llai ffafriol.


### 2.6.3 Arolwg Defnyddwyr Llwybr Arfordir Ceredigion - 2004

Roedd holiaduron ar gael mewn pum pwynt rheoli ar lwybrau troed cyhoeddus ar hyd yr arfordir (yn y Borth, Llanrhystud, Aberaeron, Ceinewydd a Phenbryn). Dychwelwyd cyfanswm o 776 o holiaduron. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am atyniadau cerdded, y pellter a gerddwyd a lleoliad y cartref. Roedd 15% o'r cerddwyr ar lwybr yr arfordir yn byw yng Ngheredigion, ond roedd y gyfran uchaf o Ganolbarth Lloegr (25%). Dywedodd 76% o'r ymatebwyr eu bod ar eu gwyliau.

Y profiad o gerdded ar hyd yr arfordir

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ar gyflwr y llwybrau, gwybodaeth am y llwybrau a gwasanaethau eraill. Dylid nodi bod amrywiaeth o waith ar lwybrau a gwaith i greu llwybrau wedi cael ei gyflawni fel rhan o brosiect Llwybr Arfordir Ceredigion ers i'r arolwg gael ei gynnal.

***Ffigur 13 – Barn cerddwyr***



## 2.7 ASESIAD RHIF 6: CYHOEDDUSRWYDD I HAWLIAU TRAMWY, MYNEDIAD A'U HYRWYDDO

Mae hyrwyddo'r rhwydwaith llwybrau a mathau eraill o fynediad i gefn gwlad yn broses barhaus. Mae'r gweithgaredd hyrwyddo'n amrywiol: mae'n digwydd drwy'r sectorau cyhoeddus a phreifat, mae'n cyflawni gwahanol ddibenion (e.e. hamdden, datblygu twristiaeth, iechyd, a meithrin gwell gwerthfawrogiad o gefn gwlad) ac yn darparu ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr a rhannau o'r farchnad. Er bod cynlluniau a strategaethau wedi helpu i dywys camau gweithredu nifer o sefydliadau sy'n ymgymryd â gweithgaredd hyrwyddo, mae mwy o le i integreiddio gweithgaredd ar draws y sectorau a'r cyrff sy'n ymwneud â hyrwyddo mynediad.

Rhaid i waith effeithiol i hyrwyddo cyfleoedd mynediad fod wedi'i seilio ar rwydwaith o lwybrau a gynhelir yn dda. Mae adnoddu a rheoli hawliau tramwy yn effeithiol yn hanfodol wrth hyrwyddo: dim ond trwy sicrhau bod llwybrau cyhoeddus mewn cyflwr da ac yn cynnwys arwyddbyst y gellir mwyafu manteision mynediad a gynnig profiad dymunol a diogel i ddefnyddwyr.

Mae cyd-destun rhanbarthol i beth cyhoeddusrwydd ynghylch mynediad (e.e. llwybrau beicio sy'n cael eu hyrwyddo gan Sustrans, Ffordd Cambria, ac ati), tra bod cyhoeddusrwydd arall yn ymwneud â marchnata'n bennaf (e.e. gwaith i Bwrdd Croeso Cymru gynt i hyrwyddo cerdded a beicio; 'Croeso Cymru' bellach), yn hytrach na darparu gwybodaeth am lwybrau penodol. Mae hefyd gyhoeddiadau niferus sy'n darparu gwybodaeth am fynediad i gefn gwlad a safleoedd bywyd gwyllt a reolir gan sefydliadau cenedlaethol a lleol (e.e. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth). Mae deunydd cyhoeddusrwydd a gynhyrchwyd yn ddiweddar gan y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer ei safleoedd coetir hefyd yn canolbwyntio ar y manteision iechyd yn sgîl mynediad.

Mae angen mesurau ychwanegol i ehangu argaeledd mynediad a'r cyhoeddusrwydd dilynol ym meysydd integreiddio mynediad a chludiant cyhoeddus a mynediad i'r llai abl. Er bod cynlluniau wedi cael eu datblygu yng Ngheredigion (e.e. gwasanaeth bws y 'Cardi Bach' a'r llwybrau i bob gallu mewn sawl safle), mae hwn yn faes sy'n galw am ystyriaeth bellach. Yn yr un modd, nid yw llwybrau tref a phentref (er enghraifft llwybrau mewn trefi a llwybrau 'cyfleuster') yn cael eu cynrychioli'n dda.

Hyd yma mae'r Cyngor Sir wedi canolbwyntio ar amlygu cyfleoedd mynediad i gefn gwlad yn bennaf trwy gynhyrchu taflenni teithiau cerdded a marchogaeth a thrwy wefannau'r Cyngor. Mae'r cyhoeddiadau hyn a gynhyrchir gan y Cyngor Sir wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn y gellid eu disgrifio fel 'llwybrau hamdden' – fel arfer llwybrau cylchol cymharol fyr sy'n darparu ar gyfer ystod o ddefnyddwyr (a restrir yn Atodiad 6).

Yn ddiweddar cynhyrchwyd llyfryn a gwefan ar gyfer llwybr Arfordir Ceredigion. Gellir cael gwybodaeth bellach ar Arfordir Ceredigion ar Raglen Gwella Mynediad i'r Arfordir.

Ar ben hyn mae rhwydwaith helaeth o lwybrau a gynhwysir mewn cyhoeddiadau annibynnol. Mae ystod o lyfrau a chanllawiau wedi cael eu cynhyrchu gan gwmnïau ac unigolion sy'n cwmpasu nifer fawr o lwybrau (teithiau cerdded yn bennaf), o lwybrau cylchol byr i Ffordd Cambria. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn ychwanegu at y rhwydwaith o lwybrau a hyrwyddir gan y Cyngor ac mae angen eu hystyried wrth reoli rhwydweithiau o hawliau tramwy.

Mae goblygiadau sylweddol i reoli llwybrau o'r fath o ran cyllidebau hawliau tramwy, a hynny ar ffurf mewnbwn staff wrth sicrhau bod llwybrau ar agor ac ar gael ac ar ffurf costau cynnal parhaus. Mae cyfyngiadau'r gyllideb hawliau tramwy yn atal mabwysiadu dull mwy cynhwysfawr ar hyn o bryd wrth reoli'r rhwydwaith o lwybrau'n gyffredinol, gan gynnwys y llwybrau hynny a gynhwysir mewn cyhoeddiadau. Yn sgîl hynny mae'n rhaid i gynigion i estyn y rhwydwaith o lwybrau a hyrwyddir gael eu hystyried yn ofalus iawn, oherwydd goblygiadau ariannol parhaus rheoli llwybrau.

## 2.8 BETH RYDYM WEDI'I DDYSGU?

Yr Asesiadau a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol yw'r sylfaen ar gyfer cynhyrchu y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae angen i'r Datganiad Gweithredu adlewyrchu'r egwyddorion a'r themâu a nodwyd fel rhan o'r broses hon. Gwelir y prif ganfyddiadau a ddaeth i'r amlwg yn Ffigur 14 isod.

***Ffigur 14 – Asesiadau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy: y prif ganfyddiadau***


| | |
|---|---|
| **1.** | **Y cyd-destun strategol ar gyfer rheoli hawliau tramwy** |
| | ▪ Mae'n hanfodol bod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cael ei integreiddio'n effeithiol gyda chynlluniau a strategaethau cenedlaethol a lleol.<br>▪ Rhaid cydnabod a manteisio ar bwysigrwydd hawliau tramwy a mynediad o safbwynt hamdden, datblygu twristiaeth, trafnidiaeth gynaliadwy a iechyd.<br>▪ Dylid mwyafu'r cyfleoedd i sicrhau arian ychwanegol ar gyfer mentrau mynediad. |
| **2.** | **Y Map Diffiniol: diffiniad cyfreithiol hawliau tramwy** |
| | ▪ Dylid adolygu'r Map Diffiniol i sicrhau bod yr hawliau tramwy cyhoeddus presennol ym mhob cymuned yn cael eu cofnodi'n gywir o ran statws a lleoliad.<br>▪ Ymchwilio i newidiadau i'r Map Diffiniol , gan gadw mewn cof y bydd Adran 56 o Ddeddf CROW 2000 yn cau'r Map Diffiniol i geisiadau newydd ar sail tystiolaeth hanesyddol o 1 Ionawr 2026.<br>▪ Ceisio dileu gwrthwynebiadau o geisiadau Adran 54 (ailddosbarthiad RUPPs) a chadarnhau'r Gorchmynion, neu gyfeirio'r gwrthwynebiadau at yr Arolygiaeth Gynllunio.<br>▪ Datblygu gwybodaeth am Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar y wefan. |

| 3. | **Cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus** |
|---|---|
| | ▪ Mae cyflwr llwybrau Ceredigion wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, er bod hynny'n dueddiad calonogol, nid yw dros hanner llwybrau'r Sir yn 'hawdd eu defnyddio' (DPLICC 6.10 a CMT/008). Yn wyneb lefel yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer rheoli llwybrau, ni ellir peidio â chwestiynu'r gallu i gynnal gwelliannau parhaus o ran cyflwr.<br>▪ Mae angen gwelliant cyson yng nghyflwr hawliau tramwy yng Ngheredigion os yw'r rhwydwaith i gyflawni ei botensial o ran darparu mynediad i gefn gwlad, twristiaeth gynaliadwy, defnydd amwynder gan bobl leol a manteision iechyd.<br>▪ Nid oes digon o adnoddau ar gyfer y rhwydwaith hawliau tramwy yng Ngheredigion ac nid yw'n cyflawni ei botensial. Mae diffyg pwysig yn lefel yr arian y mae ei angen i sicrhau bod y rhwydwaith yn cyrraedd safon foddhaol (yr arian a nodwyd yn barod a lefel yr arian sydd ar gael trwy gyllidebau blynyddol).<br>▪ prosiectau gwella llwybrau (megis cynlluniau a ariannir gan yr UE a LICC) gael effaith sylweddol ar gyflwr llwybrau yn y tymor byr/canolig a helpu hefyd i ddarparu neu wella rhwydweithiau allweddol o lwybrau. Fodd bynnag, ni all cynlluniau o'r fath ymateb i'r gofynion parhaus o ran cynnal a chadw. |
| 4. | **Rheoli a diogelu hawliau tramwy cyhoeddus** |
| | ▪ Dylai'r Cyngor ddatblygu ei ddulliau o reoli llwybrau er mwyn helpu i sicrhau gwelliant yng nghyflwr hawliau tramwy.<br>▪ I sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu i gyflawni'r canlyniadau mwyaf effeithiol o ran hawliau tramwy a mynediad, mae angen llunio 'rhwydwaith o lwybrau blaenoriaeth' trwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Dylai'r rhwydwaith hwn ystyried y gwahanol fathau o lwybrau a'r ystod o anghenion defnyddwyr.<br>▪ Bydd angen i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ystyried ymhellach datblygu cyfleoedd ar gyfer y llai abl a mynediad gyda 'lleiafswm o gyfyngiadau' ar hawliau tramwy yng Ngheredigion.<br>▪ Dylid ystyried cyfleoedd pellach i annog cymunedau lleol i reoli llwybrau ac ymwneud â hynny.<br>▪ Mae meddalwedd CAMS (System Reoli a Mynediad i Gefn Gwlad) o gymorth wrth reoli'r rhwydwaith o lwybrau. Fodd bynnag, mae goblygiadau adnoddau ynghlwm wrth wireddu llawn botensial y system hon. |
| 5. | **Asesiad o anghenion defnyddwyr** |
| | ***Cyffredinol:***<br>▪ Mae trigolion lleol yn defnyddio hawliau tramwy'n bennaf ar gyfer mwynhad ac i ymlacio. Dywedodd defnyddwyr llwybr yr arfordir mai'r golygfeydd oedd y rheswm unigol pwysicaf dros gerdded, gydag ymarfer yn ail ffactor pwysicaf.<br>▪ Mapiau'r arolwg ordnans a gwybodaeth leol yw'r ffynhonnell |

| | |
|---|---|
| | bwysicaf o wybodaeth ynghylch cyfleoedd mynediad.<br>▪ Argaeledd llwybrau lleol gerllaw'r cartref oedd y flaenoriaeth i'r trigolion lleol.<br>▪ Y prif resymau a amlygwyd gan drigolion lleol dros beidio â defnyddio hawliau tramwy yw rhwystrau ar lwybrau, gordyfiant ar lwybrau ac arwyddion/cyfeirbwyntiau gwael.<br>▪ Y blaenoriaethau a nodwyd gan y trigolion lleol ar gyfer gwella hawliau tramwy oedd gwell arwyddbyst/cyfeirbwyntiau, dileu rhwystrau/cadw llwybrau'n glir a gwella gwybodaeth/hyrwyddo llwybrau.<br>***Cerddwyr:***<br>▪ Mae'r mwyafrif o bobl yn cerdded rhwng 1 a 3 milltir, er bod defnyddwyr llwybr yr arfordir yn cerdded ymhellach.<br>▪ Byddai'n well gan gerddwyr dderbyn peth gwybodaeth am fynediad wrth fynd i gefn gwlad.<br>▪ Dylai'r blaenoriaethau gynnwys teithiau cerdded 2-3 milltir o amgylch pentrefi, Lôn Teifi a 'Thaith Gerdded o amgylch Ceredigion'.<br>***Marchogion:***<br>▪ Mae problemau o ran argaeledd llwybrau cylchol a'r cysylltiadau yn y rhwydwaith llwybrau ceffyl.<br>▪ Amlygwyd rhwystrau a gatiau dan glo fel problem sy'n atal defnydd o'r rhwydwaith llwybrau ceffyl.<br>▪ Roedd blaenoriaethau marchogion yn cynnwys gwella arwyneb llwybrau, gwella cysylltiadau o fewn y rhwydwaith, dileu rhwystrau a darparu mwy o wybodaeth a gyfleoedd i farchogaeth yng Ngheredigion.<br>***Defnyddwyr llai abl:***<br>▪ Nid oedd yr arolygon yn darparu llawer o wybodaeth am fynediad i'r llai abl. Fodd bynnag, amlygwyd y ddarpariaeth gyfyngedig o lwybrau 'mynediad i bawb' gan fwy na 6% o drigolion Ceredigion fel rheswm dros beidio â defnyddio hawliau tramwy.<br>▪ Mae'r cyhoedd o'r farn bod darparu llwybrau i bob gallu yn bwysig, ond nad yw'r ardal yn llwyddo'n dda yn ei hymgeisiau i fodloni gofynion o'r fath.<br>▪ Mae angen rhagor o waith i ddatblygu mynediad i bob gallu, yn enwedig ger aneddiadau. |
| **6.** | **Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo hawliau tramwy a mynediad** |
| | ▪ Mae angen nodi rhwydwaith o lwybrau i'w hyrwyddo sy'n diwallu anghenion defnyddwyr.<br>▪ Mae angen adnoddau i gynnal y rhwydwaith o lwybrau a hyrwyddir er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni disgwyliadau defnyddwyr.<br>▪ Dylid archwilio'r cyfleoedd i hyrwyddo mynediad i gefn gwlad ar y cyd/yn gydlynus<br>▪ Mae angen ystyried ymhellach rhoi cyhoeddusrwydd i lwybrau 'mynediad i bawb'<br>▪ Mae cyfleoedd i roi cyhoeddusrwydd i fynediad i gefn gwlad yng |

| | |
|---|---|
| | nghyswllt defnydd o gludiant cyhoeddus. |

# RHAN 3



## 3.1 CYNHYRCHU'R DATGANIAD GWEITHREDU

Rhan allweddol o'r CGHT yw'r 'Datganiad Gweithredu' sy'n pennu'r camau gweithredu arfaethedig y mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â hwy wrth wireddu eu gweledigaeth ar gyfer hawliau tramwy a mynediad yng Ngheredigion. Bydd yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer rheoli hawliau tramwy ac ar gyfer sicrhau gwell rhwydwaith mynediad ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Mae'r Datganiad Gweithredu'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r asesiadau a wnaed fel rhan o broses yr CGHT.

Mae'r Datganiad o Weithredu yn cynnwys 5 thema gydgysylltiedig ar gyfer rheoli a gwella hawliau tramwy a mynediad yng Ngheredigion. Y mae wedi'i ddatblygu ymhellach yn nodau a gweithrediadau, a phob un yn dangos yr adnoddau y byddai eu hangen i gyflawni'r cynigion, y partneriaid cyfrannog allweddol ac amserlenni ar gyfer y gweithrediadau.

Y themâu sydd wedi'u cynnwys o fewn y Datganiad Gweithredu (Adran 3.3) yw:

- **A. Cynnal y Map Diffiniadol.**
- **B. Rheoli'r rhwydwaith Hawliau Tramwy**
- **C. Cwrdd ag anghenion defnyddwyr, gan gynnwys y rhai a chanddynt nam ar eu golwg a phroblemau symud.**
- **D. Gweithio mewn partneriaeth**
- **E. Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â hawliau tramwy a mynediad**

Mae gweithrediadau CGHT yn strategol eu natur er eu bod mewn rhai achosion yn benodol i lwybr neu safle arbennig. Mewn llawer o achosion datblygir gweithrediadau drwy gynhyrchu cynlluniau busnes a rhaglenni blynyddol, ceisiadau cyllid ac mewn cynlluniau gweithredu manwl sy'n ymdrin â meysydd penodol.

Bydd yr adnoddau sydd ar gael a chyllid yn rhwym o benderfynu'r graddau y gellir cwrdd â blaenoriaethau CGHT. Dylanwedir hefyd ar fentrau Hawliau Tramwy a mynediad gan raglenni ariannu allanol a gaiff effaith ar weithredu'r CGHT.

Er mwyn cynorthwyo â rheoli llwybrau, mae'r CGHT yn darparu man cychwyn ar gyfer diffinio 'rhwydwaith llwybrau blaenoriaeth'. Mae diffinio rhwydwaith blaenoriaeth yn ganolog i gyflawni gwelliannau i Hawliau Tramwy yng Ngheredigion. Mae angen defnyddio adnoddau mor effeithiol ag sy'n bosib a gall categoreiddio'r gwahanol fathau o lwybr helpu i sicrhau bod cyfraniad staff a chyllid yn cael eu cyfeirio yn y modd mwyaf effeithiol (er enghraifft, ar

ddyfeisio rhaglenni cynnal a chadw a gwella llwybrau ac ar ymateb i gwynion am lwybrau).

Mae llwybrau sydd eisoes i'w cael megis Llwybr Arfordir Ceredigion a llwybrau hamdden strategol eraill (a restrir yn Atodiad 6) yn rhoi sail y gellir datblygu'r rhwydwaith blaenoriaeth ohoni.  Bydd nodi llwybrau eraill, er enghraifft llwybrau cymunedol pwysig, yn gofyn ymchwil bellach.  Bydd yr ymgynghori cyhoeddus ar yr CGHT a chyfathrebu parhaus gyda chyrff megis y Fforwm Mynediad Lleol, y cynghorau cymuned a grwpiau defnyddwyr yn cynorthwyo yn y broses hon o ddiffinio'r rhwydwaith llwybrau blaenoriaeth.  Bydd datblygu System Gwybodaeth Ddaearyddol y Cyngor Sir (GIS) yn helpu i gofnodi a rheoli rhwydwaith llwybrau blaenoriaeth.

Nodir categorïau'r llwybrau a ddylai ffurfio'r rhwydwaith llwybrau blaenoriaeth yng Ngheredigion yn Ffigur 15.  Mae mathau o lwybr wedi'u graddio **1** hyd **4** i ddynodi blaenoriaeth.

***Ffigur 15 – Rhwydwaith Llwybrau Blaenoriaeth (hawliau tramwy cyhoeddus)***

| **Blaenoriaeth** | **Llwybrau hamdden** | |
|---|---|---|
| **1** | Llwybrau llinol strategol<br>• Llwybr Arfordir Ceredigion<br>• Llwybr Arfordir Cymru<br>• Aberaeron-Llanbedr Pont Steffan<br>• Y Borth-Pontrhydfendigaid | Datblygwyd Llwybr yr Arfordir drwy raglen Amcan 1. Mae Llwybr Arfordir Cymru'n cynnwys Llwybr Arfordir Ceredigion ynghyd â chynigion i agor llwybrau newydd ar hyd aberoedd Dyfi a Theifi (dan y Rhaglen Mynediad ar yr Arfordir) |
| **2** | Llwybrau a hybir gan y Cyngor Sir | Llwybrau eraill a hybir gan y Cyngor Sir fel y'u rhestrir yn Atodiad 6. |
| **2** | Llwybrau'r Parth Arfordirol | Llwybrau arfordirol cylchog a chysylltiadau â Llwybr yr Arfordir – rhwydwaith i'w ddatblygu drwy'r Rhaglen Mynediad i'r Arfordir. |
| **3** | Llwybrau hamdden – cyhoeddiadau teithiau cerdded | Llwybrau allweddol i'w nodi (i gynnwys llwybrau dethol yng Ngheredigion o arweinlyfrau teithiau cerdded). |
| **3** | Hawliau Tramwy sy'n darparu cyswllt gyda safleoedd cefn gwlad (neu oddi mewn iddynt) | Er enghraifft, llwybrau i dir y Comisiwn Coedwigaeth, safleoedd yr Ymddiredolaeth Genedlaethol, ac ati. Rhwydwaith i'w ddiffinio. |
| **3** | Hawliau Tramwy sy'n gwasanaethu 'Tir Mynediad' | Llwybrau o leoliadau 'porth' (gweler Ffigur 4). Rhwydwaith i'w ddiffinio |
| **4** | Llwybrau hamdden eraill | Llwybrau sydd ar agor ac ar gael ac sy'n darparu adnawdd |

| | | |
|---|---|---|
| | | hamdden. Rhwydwaith i'w ddiffinio. |
| | **Llwybrau cymunedol** | |
| **2** | Llwybrau cymunedol (a) – llwybrau cylchog o gwmpas aneddiadau | Rhwydweithiau lleol o hawliau tramwy yn agos at drefi a phentrefi dethol. I'w diffinio. |
| **2** | Llwybrau cymunedol (b) – hawliau tramwy sy'n gwasanaethu cyfleusterau lleol (e.e. ysgolion a siopau) a chanolbwyntiau / llefydd amlwg eraill | I'w diffinio. |
| **3** | Llwybrau cymunedol (c) – hawliau tramwy sydd wedi eu gwella drwy raglenni gwella hawliau tramwy | Rhwydweithiau o lwybrau sydd wedi eu diffinio drwy'r 'Cynllun Llwybrau Cymunedol' a rhaglenni lleol eraill |
| | **Llwybrau eraill** | |
| **2** | 'Llwybrau mynediad i bawb' | Hawliau tramwy cyhoeddus sy'n rhoi cyfleoedd mynediad i bobl llai abl – gall y rhain fod wedi'u cynnwys hefyd yn y rhai uchod. Rhwydwaith i'w ddiffinio. |

## 3.3 GWEITHREDU AC ADOLYGU

Bydd cynhyrchu'r CGHT yn ddyletswydd statudol ac er nad yw hynny'n wir am ei weithredu, fe fydd disgwyl i'r Cyngor geisio gweithredu'r cynllun. Mae'r Datganiad Gweithredu'n uchelgeisiol ac yn heriol a bydd yn gofyn cefnogaeth barhaus llywodraeth genedlaethol a lleol a chyrff eraill. Mewn llawer i achos bydd angen cyllid cyfalaf a refeniw ychwanegol i roi'r gwelliannau ar waith ac i sicrhau eu cynnal yn y tymor hir. Mewn achosion eraill ceir cynnydd drwy wella effeithlonrwydd, mabwysiadu'r arfer orau, gweithio mewn partneriaeth a thrwy gefnogaeth a chyfranogiad y gymuned leol.

Eto i gyd, adnoddau sy'n allweddol i gyflawni'r CGHT ac ni ellir wrth gwrs warantu y bydd cyllid ar gael yn llawn. Fodd bynnag mae'n hanfodol i'r CGHT bennu'r nodau i'r Sir ac ymlafnio i esgor ar welliant parhaus i'w rwydwaith hawliau tramwy.

Fel ag a nodwyd mewn llefydd eraill, mae'n arbennig o bwysig i'r CGHT 'gydblethu' â chynlluniau a strategaethau cysylltiedig. Mae hefyd brosesau a mecanweithiau penodol sy'n rhoi sail i danlinellu nodau allweddol yr CGHT ac yn darparu modd i fynd â gweithrediadau ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Strategaeth Gymunedol (Ceredigion 2020)
- Y Cynllun Corfforaethol

- Cynlluniau Busnes Blynyddol (Gwasanaethau Cynllunio)
- Rhaglenni a cheisiadau cyllid
- Integreiddio'r CGHT â chynlluniau a strategaethau eraill.

Bydd angen i'r Cyngor ddatblygu prosesau monitro i asesu a mesur y perfformiad mewn cyflawni'r CGHT. Dylai'r mecanweithiau hyn gynnwys:

- Dangosyddion Perfformiad ar gyfer hawliau tramwy
- Cynhyrchu adroddiadau blynyddol ar gyflawni'r CGHT
- Pwyllgor Craffu'r Cyngor Sir (Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai)
- Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion
- Cadw cyswllt â grwpiau defnyddwyr ac undebau ffermio

## 3.4 DATGANIAD GWEITHREDU DRAFFT

Mae'r **Datganiad Gweithredu** wedi'i adeiladu o gwmpas y themâu a'r nodau ategol canlynol:

**A. Cynnal y Map Diffiniadol.**

- Darparu Map Diffiniadol diweddar
- Darparu rhwydwaith llwybrau sy'n ymatebol i ofynion y cyhoedd

**B. Rheoli a gwarchod y rhwydwaith hawliau tramwy**

- Gwella cyflwr hawliau tramwy
- Sicrhau rheoli'r rhwydwaith llwybrau'n effeithiol

**C. Cwrdd ag anghenion defnyddwyr, gan gynnwys y rhai a chanddynt nam ar eu golwg a phroblemau symud.**

- Gwella mynediad i'r rhwydwaith i bawb, gan gynnwys y rhai a chanddynt nam ar eu golwg a phroblemau symud
- Sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus yn cwrdd ag anghenion y gymuned
- Sicrhau bod y rhwydwaith llwybrau cyhoeddus yn darparu cyfleoedd da o ran hamdden
- Darparu cyfleoedd i farchogwyr a gyrwyr cerbydau a dynnir gan geffylau
- Darparu cyfleoedd i feicwyr
- Darparu cyfleoedd i ddefnyddio cerbydau modur maes
- Darparu mynediad i 'Dir Mynediad' a safleoedd mynediad cefn gwlad
- Cefnogi defnyddio 'trafnidiaeth werdd' i gael mynediad i gefn gwlad

**D. Gweithio mewn partneriaeth**

- Hwyluso gweithio mewn partneriaethau a chyfrannu at gyflawni cynlluniau a strategaethau cysylltiedig mewn modd effeithiol
- Annog cyfranogiad gan y gymuned mewn rheoli a gwella'r rhwydwaith llwybrau

**E. Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â hawliau tramwy a mynediad**

- Hybu a hyrwyddo cyfleoedd mynediad o ansawdd uchel yng Ngheredigion

Mae'r Datganiad Gweithredu wedi'i osod ar ffurf tabl ac yn cynnwys:

- Rhif cyfeirnod y gweithrediad
- Y nod ategol
- Camau Gweithredu CGHT
- Y flaenoriaeth – nodir pedair lefel o flaenoriaeth : A* / A / B / C (lle mai A* yw'r flaenoriaeth uchaf ac C yw'r isaf)
- Y sylwadau
- Y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer blynyddoedd 1 hyd 5 o gyfnod y cynllun
  (Noder: Amh. - amherthnasol)
- Adnoddau staffio: dengys y symbolau canlynol yr adnoddau staffio yr amcangyfrifir eu bod yn angenrheidiol i gyflawni'r cam gweithredu –

| | |
|---|---|
| Adnoddau staffio presennol |  |
| Adnoddau staffio ychwanegol angenrheidiol |  |
| Gofynion Staffio heb eu hasesu | **?** |

- Cyllid: amcangyfrif o'r buddsoddiad angenrheidiol i gyflawni pob un o'r camau gweithredu, ac eithrio costau staffio. Yn y mwyafrif o achosion nodwyd y costau o fewn yr ystod ffigyrau canlynol (caiff costau mwy manwl eu nodi wrth gynhyrchu rhaglenni hawliau tramwy a mynediad):

| | |
|---|---|
| Wedi'i ddiwallu o fewn cyllidebau presennol | **£** |
| Angen llai na £10,000 y flwyddyn | <**£10k** |
| Angen rhwng £10,000 a £50,000 y flwyddyn | **£10- 50k** |
| Angen rhwng £50,000 a £100,000 y flwyddyn | **£50-100k** |
| Dros £100,000 y flwyddyn | **>£100** |
| Costau'r gweithrediad i'w asesu | **£?** |

- Partneriaid cyflawni
  Ni nodir yn benodol y Fforwm Mynediad Lleol fodd bynnag bydd eu cylch gwaith yn ymestyn i ddarparu arweiniad ar yr holl faterion a nodir yn y Cynllun.
  (Noder: Amh. – amherthnasol)

Bydd nifer o'r camau gweithredu yma'n gyd-gysylltiedig ac mewn nifer o achosion bydd angen cysylltu'r gwaith o weithredu'r camau penodol (er enghraifft, gwella llwybrau a'r arwyddion arnynt). Hefyd gall gweithredu un cam gynorthwyo i gyflawni camau gweithredu eraill.

Ar hyn o bryd ffigyrau bras yn unig yw mewnbwn staff a chostau a chant eu mireinio dros gyfnod y cynllun. Gan fod y camau gweithredu mewn rhai achosion wedi eu cydblethu, bydd yr adnoddau ariannol neu adnoddau staff sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni un cam gweithredu hefyd yn cyfrannu at gyflawni cam gweithredu arall. Bydd adolygu'r CGHT hefyd yn galluogi i'r camau gweithredu a'r gofynion adnoddau sy'n gysylltiedig â hwy gael eu 'cario ymlaen' dros gyfod y cynllun i 2018.

## Thema A – Cynnal y Map Diffiniadol

| **Gweithrediad A.01** | Nod: Darparu Map Diffiniadol diweddar | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithrediad | **Pennu Gorchmynion Cyfaddasu o fewn amserlenni penodol** | | | | |
| Blaenoriaeth | **A*** | | | | |
| Sylwadau | Targed o 80% o geisiadau i'w pennu o fewn 12 mis i dderbyn cais dilys.<br>Ceisiadau ar hyn o bryd ar raddfa o tua 6 y flwyddyn. | | | | |
| Adnoddau: | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Cyllid | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Staff | 👤 | 👤 | 👤 | 👤 | 👤 |
| Partneriaid cyflawni | Amh. | | | | |

| **Gweithrediad A.02** | Nod: Darparu Map Diffiniadol diweddar | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithrediad | **Adolygu'r Map Diffiniadol i sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus wedi'u cofnodi'n gywir o ran statws a lleoliad** | | | | |
| Blaenoriaeth | **B** | | | | |
| Sylwadau | Yn gofyn rhaglen 20 mlynedd o weithredu a chyllid cyfatebol | | | | |
| Adnoddau: | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Sylwadau | Dylid ymchwilio i ddichonadwyedd a photensial darparu gwybodaeth gydgysylltiedig am gyfleoedd mynediad mewn safleoedd cefn gwlad yng Ngheredigion (dyddiad targed ar gyfer gweithredu yn 2009-10: costau yn y dyfodol yn dibynnu ar gasgliadau). | | | | |
| Adnoddau: | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Cyllid | **-** | **-** | **-** | **-** | **£** |
| Staff | - | - | - | - | 🚹 |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Partneriaid cyflawni | CCGC, Com. Coed, Cadw, Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Coed Cadw (ayb). | | | | |

| **Gweithrediad E.04** | Nod: Hybu a hyrwyddo cyfleoedd mynediad o ansawdd uchel yng Ngheredigion | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithrediad | **Darparu gwybodaeth am gyfleoedd 'Mynediad Agored' yng Ngheredigion** | | | | |
| Blaenoriaeth | **C** | | | | |
| Sylwadau | Dylid ymchilio i ddichonadwyedd a photensial. Gellid cysylltu'r gweithrediad hwn ag E.04 (dyddiad targed ar gyfer gweithredu yn 2009-10: costau yn y dyfodol yn dibynnu ar y casgliadau a gyrhaeddir). | | | | |
| Adnoddau: | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Cyllid | **-** | **-** | **-** | **-** | **£** |
| Staff | **-** | **-** | **-** | **-** | 🧍 |
| Partneriaid cyflawni | CCGC, undebau ffermio. | | | | |

| **Gweithrediad E.05** | Nod: Hybu a hyrwyddo cyfleoedd mynediad o ansawdd uchel yng Ngheredigion | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithrediad | **Darparu gwybodaeth am gyfleoedd mynediad ar hawliau tramwy ger trefi a phentrefi dethol** | | | | |
| Blaenoriaeth | **B** | | | | |
| Sylwadau | Darparu gwybodaeth (arweiniadau i deithiau cerdded a / neu gwybodaeth ar y we) am deithiau cerdded cymunedol, yn gysylltiedig â rhaglenni gwella llwybrau a chynnal a chadw llwybrau (gweler hefyd Weithrediadau B.09, B.10, C.05 a D.06). | | | | |
| Adnoddau: | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Cyllid | **-** | **-** | **<£10k** | **<£10k** | **<£10k** |
| Staff | **-** | **-** | 🧍 | 🧍 | 🧍 |
| Partneriaid cyflawni | CCGC, cynghorau cymuned | | | | |

| **Gweithrediad E.06** | Nod: Hybu a hyrwyddo cyfleoedd mynediad o ansawdd uchel yng Ngheredigion | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithrediad | **Darparu rhaglen flynyddol o deithiau cerdded wedi'u tywys yng Ngheredigion** | | | | |
| Blaenoriaeth | **B** | | | | |
| Sylwadau | Mae'r Cyngor Sir wedi darparu rhaglenni blynyddol o deithiau cerdded wedi'u tywys o'r blaen, a nhwthau wedi profi'n boblogaidd gydag ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd. Cynigiai'r gweithrediad hwn ailgyflwyno'r nodwedd hon. | | | | |
| Adnoddau: | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Cyllid | **-** | **<£10k** | **<£10k** | **<£10k** | **<£10k** |
| Staff | **-** | 🧍 🧍 | 🧍 🧍 | 🧍 🧍 | 🧍 🧍 |
| Partneriaid cyflawni | CCGC | | | | |

# ATODIADAU



| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | **Rhestr byrfoddau** |
| Atodiad 2 | **Safleoedd cefn gwlad yng Ngheredigion** |
| Atodiad 3 | **Cyfrifoldebau hawliau tramwy** |
| Atodiad 4 | **Cyd-destun Strategol – Cynlluniau a strategaethau perthnasol** |
| Atodiad 5 | **Ardaloedd rheoli llwybrau yng Ngheredigion** |
| Atodiad 6 | **Hyrwyddo mynediad a rhoi cyhoeddusrwydd iddo (Cyngor Sir Ceredigion)** |
| Atodiad 7 | **Adrodiad Sgrrinio ar Asesiad Amgylcheddol Strategol** |

**RHESTR BYRFODDAU**

| | |
|---|---|
| AA | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| BCC | Bwrdd Croeso Cymru |
| CAMs | System Rholi Mynediad i Gefn Gwlad |
| CAUD | Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig |
| CAVO | Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion |
| ComC | Comisiwn Coedwigaeth |
| CC | Cymdeithas y Cerddwyr |
| CCGC | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| CCT Ceredigion | Cynllun Cynnydd Twristiaeth Ceredigion |
| CDU | Cynllun Datblygu Unedol |
| CGHT | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy |
| CLlC | Cynllun Llwybrau Cymunedol |
| CSC | Cyngor Sir Ceredigion |
| CTLl | Cynllun Trafnidiaeth Lleol |
| CTRh | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Deddf BGChG 1981 | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 |
| Deddf CG 1968 | Deddf Cefn Gwlad 1968 |
| Deddf CGHT 2000 | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 |
| Deddf CGTh 1990 | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| Deddf CTC 1965 | Deddf Cofrestru Tir Comin 1965 |
| Deddf GA 1995 | Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 |
| Deddf P 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |
| Deddf PCMGG 1949 | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 |
| Deddf PTLl 1975 | Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975 |
| Deddf RhTFf 1984 | Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 |
| DP | Dangosydd Perfformiad |
| FfDdLlC | Ffordd a Ddefnyddir fel Llwybr Cyhoeddus |
| GNG | Gwarchodfa Natur Genedlaethol |
| LlCC | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Partneriaeth HSCWB | Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles |
| ‘PLWM’ | Ysbryd y Mwynwyr (Cyfnod 2) |
| RhIBA | Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol |
| SGDd | System Gwybodaeth Ddaearyddol |
| UE | Undeb Ewropeaidd |

*Atodiad 2*

## SAFLEOEDD CEFN GWLAD YNG NGHEREDIGION

### Cyngor Sir Ceredigion

Parc Natur Penglais (GNL), Aberystwyth
GNL Pendinas a Thraeth Tan y Bwlch, Aberyswyth
Coed Cwm, Aberystwyth
Coed Llanina, Y Ceinewydd
Maes y Pwll, Y Ceinewydd (gyda Cyngor Tref Ceinewydd)
Glan yr Afon Cenarth
Parcllyn, Abersytwyth
Geufron, Aberystwyth
Llwyn yr Eos, Aberystwyth
Coed Panteg (rhan), Aberaeron

Cytundebau Mynediad i Goedwigoedd – safleoedd coedwig ym Mhenwenallt, Cwmere, Coed Crossway, Coed y Castell, Banc y Llyn a Mynydd Brith

### Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol[5]

GNG Allt Rhyd y Groes (rhan)
GNG Coedmor
GNG Coed Rheidol
GNG Cors Caron
GNG Dyfi (Ynyslas)
Llyn Eiddwen
GNG Rhos Llawr Cwrt

### Y Comisiwn Coedwigaeth

Nant yr Arian
Cwm Einion
Ystrad Einion
Ty'n Bedw
Y Gelli Ddu, Trawscoed
Gogerddan
Y Bwa
Hafod[6]
Pwll Peiran
Pantyfedwen

### Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Llanerchaeron

---

[5] *Mae mynediad yn gyfyngedig mewn rhai safleoedd.*
[6] *Rheolir mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Hafod*

Craig yr Adar, Y Ceinewydd
Penbryn
Y Mwnt

**Ymddiriedolaeth Natur Gorllewin Cymru**

Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru, Cilgerran (rhan)
Odynau Calch Aberstrincell*
Allt Crug Garn
Allt Pencnwc
Caeau Llety Cybi
Coed Maidie B Goddard*
Coed Penglanowen*
Coed Simdde Lwyd*
Cors Ian*
Cwm Clettwr*
Llyn Eiddwen*
Llyn Fanod
Old Warren Hill*
Pant Da*
Clogwyni Penderi *
Pennar Fawr
Rhos Fullbrook
Rhos Glandenys
Rhos Glyn yr Helyg
Rhos Pil Bach
Rhos y Fforest

(mae gan safleoedd sydd wedi'u marcio â seren gysylltiadau HDC neu lwybr caniataol).

**Coed Cadw**

Coed Geufron, Aberystwyth
Coed Allt Goch, Pisgah
Coed y Bobol, Pontarfynach
Coed Nant y Berws, Pontrhydygroes
Waun Garthenor, Llanddewi Brefi
Coed Creuddyn, Llanbedr Pont Steffan
Allt Cefn Maesllan / Coed Perthneidr, Llanarth
Coed y Foel, Llandysul
Coed Tyddyn Du, Cenarth
Coed y Mwldan, Aberteifi

**Cadw**

Abaty Ystrad Fflur
Ffwrnais

**Safleoedd Eraill**

Allt y Graig, Aberaeron (Cyngor Tref Aberaeron)
Denmark Farm (Shared Earth Trust)

Maes y Pwll, Y Ceinewydd (Cyngor Tref y Ceinewydd)
Gwarchodfa Ynys Hir, RSPB

*Atodiad 3*

## CYFRIFOLDEBAU HAWLIAU TRAMWY

| Swyddogaeth | Deddfwriaeth | Manylion |
|---|---|---|
| **Rheoli Hawliau Tramwy** | | |
| Amddiffyn hawliau'r cyhoedd dros lwybrau cyhoeddus. | Deddf P 1980 (A. 130(1)) | Dyletswydd i arddel ac amddiffyn hawliau'r cyhoedd mewn perthynas â defnyddio a mwynhau llwybrau cyhoeddus. |
| Atal rhwystro hawliau tramwy. | Deddf P 1980 (A. 130(3)) | Dyletswydd i atal gymaint y gellir rwystro llwybrau cyhoeddus. |
| Arwyddo llwybrau | Deddf CG 1968 | Dyletswydd i arwyddo pob hawl dramwy lle gedy'r ffordd fetlinedig. |
| Cynnal a chadw hawliau tramwy (a) | Deddf P 1980 (A. 41) | Dyletswydd i gynnal a chadw arwyneb hawliau tramwy.<br>Mae'r ddarpariaeth hon yn ymestyn i ddyletswydd i gynnal a chadw pontydd (o dan A 328). |
| Cynnal a chadw hawliau tramwy (b) | Deddf P 1980 (A. 56) | Cyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd lleol i fynnu i lwybr cyhoeddus gael ei drwsio |
| Cynnal a chadw hawliau tramwy (c) | Deddf P 1980 (A. 146) | Cyfrifoldeb perchenogion tir i gynnal a chadw camfeydd, gatiau, ac ati, ar lwybrau cyhoeddus. |
| Gwella hawliau tramwy | Deddf P 1980 (A. 146) | Pŵer i wneud gwelliannau i hawliau tramwy. |
| Anghenion pobl anabl | Deddf GA 1995;<br>&<br>Deddf CGHT 2000 (A. 69) | Yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried anghenion pobl a chanddynt broblemau symud wrth awdurdodi codi camfeydd a gatiau newydd ar lwybrau troed neu lwybrau march. |
| Rhwystrau ar lwybrau | Deddf CGHT 2000 (A. 63) | Proses lle gall aelodau'r cyhoedd geisio am gael symud ymaith rwystrau i lwybrau drwy gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod. |
| Cyfeirbwyntio llwybrau | Deddf CG 1968 | Darparu cyfeirbwyntio ar hawliau tramwy. |
| **Map Diffiniadol / Mynediad Agored** | | |
| Map Diffiniadol o Hawliau Tramwy | Deddf BGChG 1981 | Dyletswydd i gadw'r Map a'r Datganiad Diffiniadol o dan adolygiad parhaus. Gwneir newidiadau i'r Map Diffiniadol o ganlyniad i'r canlynol:<br>a. 'Digwyddiadau Cyfreithiol'. Newidiadau i'r Map lle gwnaed gorchmynion cyfreithiol eisoes o ran dargyfeirio, creu a diddymu.<br>b. 'Digwyddiadau Tystiolaethol'. Yn cynnwys y broses o gyfaddasu'r Map Diffiniadol o ganlyniad i lwybrau a ychwanegir drwy gyflwyniad tybiedig; bodolaeth llwybrau sydd heb eu cofnodi; i lwybr gael ei gofnodi â |

| | | |
|---|---|---|
| | | statws gwahanol; ac i lwybr gael ei ddileu. |
| Ceisiadau am gyfaddasu'r Map Diffiniadol | Deddf BGChG 1981 (A. 53) | Dyletswydd i brosesu ceisiadau a wneir am gyfaddasu'r Map Diffiniadol. |
| Cau'r Map Diffiniadol | Deddf CGHT 2000 (A. 53) & Deddf BGChG 1981 (A. 53) | Nododd Deddf CGHT ddyddiad olaf o 2026 ar gyfer ceisiadau i hawliau tramwy (ar sail tystiolaeth hanesyddol) gyfaddasu'r Map Diffiniadol.<br>Dyletswydd i brosesu ceisiadau am Gyfaddasu'r Map Diffiniadol. |
| Ailddosbarthu Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus (a) | Deddf BGChG 1981 (A. 54) | Dyletswydd i ailddosbarthu Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus. |
| Ailddosbarthu Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus (b) | Deddf CGHT 2000 (A. 47) | Ailddosbarthu Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus yn awtomatig fel Cilffyrdd Cyfyngedig. |
| Newidiadau i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (a) | Deddf P 1980 (A. 116; 118; 119)<br>&<br>Deddf CGTh 1990 | Pŵer i wneud newidiadau i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus (dargyfeirio, creu, diddymu).<br>Yn cynnwys newidiadau i lwybrau sy'n deillio o roi caniatâd cynllunio. |
| Newidiadau i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (b) | Deddf CGHT 2000 (A. 57) | Darpariaethau ar gyfer diddymu a dargyfeirio llwybrau cyhoeddus at ddibenion amddiffyn disgyblion a staff lle bo llwybr yn croesi eiddo ysgol. |
| Dargyfeiriadau Dros Dro (TROs) | Deddf RhTFf 1984 (A. 22) & Deddf CGHT (A.66) | Dyletswydd i brosesu ceisiadau am ddargyfeiriadau dros dro i hawliau tramwy (i hwyluso gwaith a gweithgareddau eraill). |
| Rheoli Tir 'Mynediad Agored'. | Deddf CGHT 2000 (Rhan 1) | Mae gan y Cyngor bwerau i reoli tir mynediad agored mewn perthynas â'r canlynol:<br>▪ Darparu gwasanaeth warden.<br>▪ Gwneud isddeddfau.<br>▪ Darparu gwybodaeth am fynediad ac arwyddion.<br>▪ Gwella mynediad i dir mynediad agored.<br>▪ Darparu mynediad newydd i 'ynysoedd' o dir mynediad. |

## CYD-DESTUN STRATEGOL – CYNLLUNIAU A STRATEGAETHAU PERTHNASOL

| **a. Cynlluniau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol** | |
|---|---|
| ‘Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru’ LICC (2003) | Y Strategaeth Amgylcheddol yw strategaeth dymor hir LICC ar gyfer amgylchedd Cymru, sy’n gosod y cyfeiriad ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf. Mae’r Strategaeth yn tanlinellu’r rhwydwaith helaeth o hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghymru (cyfanswm o dros 20,750 o filltiroedd / 33,200 o gilomedrau) a thir mynediad sydd ar gael (tuag 20% o Gymru), ond yn nodi bod Dangosyddion Perfformiad yn datgelu yn 2004/05 mai dim ond 51.4% o hawliau tramwy oedd yn hawdd i aelodau’r cyhoedd eu defnyddio.<br><br>Mae’r Strategaeth yn ddogfen strategol allweddol ar gyfer hawliau tramwy a mynediad a’i chanolbwyntiau gweithgarwch yw’r canlynol:<br>▪ Gwella’r posibiliadau o gerdded mewn ardaloedd trefol i hybu cerdded a beicio<br>▪ Cynyddu cyfleoedd am fynediad i gefn gwlad ac arfordir Cymru i drigolion Cymru yn ogystal ag ymwelwyr.<br>▪ Sicrhau mynediad priodol, gan gynnwys rheoli niferoedd pobl a’r math o drafnidiaeth mewn ardaloedd sensitif a sicrhau mai’r effaith leiaf bosib a geir gan yr isadeiledd cysylltiedig ar yr amgylchedd.<br>▪ Gweithio i gynyddu cyfartaledd cyfle mewn mynediad corfforol drwy nodi rhwystrau amhriodol i fynediad a’u dileu. |
| 'Camu ‘mlaen’ BCC (2003) | Yn gosod fframwaith i sicrhau posibiliadau cerdded o ansawdd uchel yng Nghymru. Ei saith amcan strategol yw:<br>▪ Y rhwydwaith hawliau tramwy gorau o ran ei reolaeth a’i gynnal a chadw<br>▪ Y dewis gorau o deithiau cerdded<br>▪ Y llenyddiaeth deithiau cerdded orau o ran ei chyflwyniad<br>▪ Y gwasanaethau gwybodaeth gorau ynglŷn â cherdded<br>▪ Yr integreiddiad gorau o gerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus<br>▪ Y cyfleusterau, y gwasanaethau a’r croeso gorau i gerddwyr |

| | |
|---|---|
| | ▪ Y marchnata gorau i gerdded |
| 'Newid Gêr – Strategaeth Twristiaeth Feicio i Gymru' BCC (2003) | Mae hon yn darparu fframwaith strategol ar gyfer datblygu a marchnata twristiaeth feicio yng Nghymru 2000-2007 gyda blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu a strategaeth ar gyfer rhoi'r cwbl ar waith. |
| 'Cyfrwyo i Lwyddo – Strategaeth Twristiaeth Farchogaeth i Gymru' BCC (2003) | Mae hon yn ceisio gwneud yn fawr o gryfderau naturiol Cymru wrth ddatblygu marchogaeth fel gweithgaredd twristaidd a Chymru fel cyrchfan i'r gweithgaredd hwnnw. Mae'r adroddiad yn nodi'r angen i ddatblygu rhychwant o lwybrau byr, plethog, cylchog a hir ac yn cydnabod pwysigrwydd mynd â chyfleoedd ymlaen mewn partneriaeth.<br><br>Mae gan y strategaeth bolisïau sy'n uniongyrchol berthnasol i'r CGHT:<br>▪ Datblygu rhwydwaith o lwybrau a theithiau a fydd wedi'i gynnal yn well a chreu cysylltiadau o ran cynhyrchion a marchnata rhwng llwybrau a chynhyrchion a gwasanaethau eraill i farchogwyr o dwristiaid<br>▪ Gwybodaeth ar ôl cyrraedd – hybu gwell cyfeirbwyntio ar lwybrau a theithiau, cynhyrchu mapiau o lwybrau, datblygu llwybrau wedi'u tywys a gwybodaeth am gyfleusterau i gefnogi marchogwyr. |
| 'Strategaeth Twristiaeth Arfordirol' LlCC (i'w chyhoeddi yn 2008) | Mae'r strategaeth twristiaeth arfordirol yn bwriadu adeiladu ar botensial economaidd arfordir Cymru gan gymryd ffactorau amgylcheddol a'r potensial o fuddion cymunedol i ystyriaeth.<br>Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at gynigion LlCC i gynyddu mynediad y cyhoedd i'r arfordir a datblygiad Llwybr Arfordir Cymru gyfan. |
| 'Cynllun Gweithredu Bae Ceredigion' LlCC (2007) | Mae'r Cynllun Gweithredu yn adeiladu ar nifer o ddogfennau strategol megis Cynllun Gofodol Cymru a'r Strategaeth Twristiaeth Arfordirol. Nodir naw rhan allweddol i'r Cynllun Gweithredu, sy'n cynnwys y llwybr arfordirol a mynediad a rheolaeth o'r arfordir ac ymwelwyr.<br>Yn ôl y bwriad bydd modd cysylltu rhannau'r Cynllun Gweithredu â Chyllid Cydgyfeiriant yr UE, Fframweithiau Gofodol, a strategaethau twristiaeth. |


| | |
|---|---|
| ‘Strategaeth Cerdded a Seiclo i Gymru’ LICC (2003) | Strategaeth a chynllun gweithredu i hybu darpariaeth a defnydd cynyddol o gyfleusterau teithio, cefnogi datblygiad cynaliadwy, lleihau effeithiau andwyol trafnidiaeth fodur a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Nodir cerdded a beicio fel gweithgareddau defnydd yn ogystal â hamdden a chrybwyllir marchogaeth o ran ei pherthynas â cherdded a beicio. |
| ‘Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol’, TraCC. | Mae TraCC (sef consortiwm sy’n cynnwys Cynghorau Sir Ceredigion, Powys a Gwynedd) yn cynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) i’r Canolbarth. Datblygir yr CTRh o amgylch y strategaethau canlynol:<br>▪ Lleihau’r galw am isadeiledd trafnidiaeth<br>▪ Lleihau effeithiau amgylcheddol<br>▪ Gwella diogelwch a chraffu<br>▪ Gwella hygyrchedd<br>▪ Hybu teithio cynaliadwy<br>▪ Gwella cysylltiadau strategol<br>▪ Dylanwadu ar gynllunio’r defnydd o dir<br>▪ Monitro a gwerthuso<br><br>Mae’r CTRh wrthi ar hyn o bryd yn cael ei gynhyrchu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am weld integreiddio rhwng yr CTRhau a’r CGHTau. Er enghraifft, dylai’r CTRh nodi’r amcanion polisi yr anelir atynt er mwyn datblygu’r CGHT yn eu rhanbarth a chyfuno’r rhai mwyaf perthnasol o fewn y cynllun trafnidiaeth rhanbarthol. Hefyd, yr CTRh yw’r mecanwaith y gellid denu rhai mathau o gyllid cyfalaf ar gyfer gwelliannau drwyddo at brosiectau hawliau tramwy a mynediad. |
| ‘Dringo’n Uwch’ LICC (2005) | Mae strategaeth y Cynulliad ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cwmpasu cyfnod o 20 mlynedd. Ei nod yw cynyddu gweithgarwch corfforol a gwella iechyd. Mae’n cynnwys y targedau canlynol:<br>▪ bydd y ganran o bobl sy’n defnyddio’r amgylchfyd naturiol yn codi o 36% i 60%<br>▪ bydd gan 95% o bobl lwybr troed neu lwybr beicio o fewn pellter cerdded deng munud<br>▪ ni ddylai neb fyw fwy na phellter cerdded chwe munud (300m) o’u man glas naturiol agosaf. |
| **b. Cynlluniau a strategaethau lleol** | |

| | |
|---|---|
| ‘Ceredigion 2020’ Partneriaeth Ceredigion 2020 (2005) | Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 ddyletswydd newydd i awdurdodau lleol i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu cymunedau lleol ac i hybu cynaliadwyedd. Mae’r Strategaeth Gymunedol yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer y 10-15 mlynedd nesaf a bydd yn helpu i arwain gweithredu gan sefydliadau a chymunedau yng Ngheredigion. Mae’r strategaeth yn nodi pum thema fawr:<br>▪ Iechyd, gofal cymdeithasol a lles<br>▪ Economaidd lewyrchus<br>▪ Amgylchedd o ansawdd uchel<br>▪ Dysgu i fyw<br>▪ Cymunedau cryfach<br><br>Yn rhan o’r Strategaeth Gymunedol, mae Partneriaeth Amgylchedd Ceredigion wedi cynhyrchu ‘Fframwaith Cyswllt Amgylcheddol’ (FfCA) a bennodd flaenoriaethau o ran yr amgylchedd (gan gynnwys ‘*darparu cyfleoedd i fwynhau cefn gwlad Ceredigion’*). Mae’r nodau’n cynnwys:<br>▪ Gwella hawliau tramwy cyhoeddus<br>▪ Gwella cyfleoedd am fynediad i gefn gwlad<br>▪ Gwell mynediad i gefn gwlad i bobl lai abl. |
| ‘Strategaeth Gorfforaethol 2004-08’ CSC (2004) | Mae Strategaeth Gorfforaethol 2004-2008 yn gosod y fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau’r Cyngor a chyllidebu. Mae rheoli hawliau tramwy a darparu mynediad i gefn gwlad yn gwneud cyfraniadau allweddol at nodau canlynol y Strategaeth:<br>▪ Sicrhau bod pobl yn byw mewn tai fforddiadwy o ansawdd uchel neu fod ganddynt fynediad i dai o’r fath a bod ganddynt ffordd iach o fyw mewn amgylchedd o ansawdd uchel<br>▪ Hybu datblygiad ac adfywiad Economaidd er lles y gymuned leol<br><br>Mae’r Cyngor yn cynhyrchu **Cynllun Corfforaethol** blynyddol sy’n pennu gweithrediadau i fynd ymlaen â nhw yn ystod y flwyddyn honno. Ymhlith y gweithrediadau sydd wedi’u cynnwys yng nghynllun 2007-08 mae prosiect Llwybr yr Arfordir, rhaglen Gwella Mynediad yr Arfordir a phrosiect peilot Mynyddoedd Cambria. Mae’r Cynllun yn cynnwys targed o 43% o lwybrau i fod yn hawdd i’r cyhoedd eu defnyddio. |
| ‘Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion’, CSC (2006) | Gosododd y Cynllun Datblygu Unedol (CDU) y fframwaith polisi o ran y defnydd o dir ar gyfer datblygu a defnyddio tir ac adeiladau yn y Sir dros y cyfnod o 2001 hyd at 2016. Mae’r polisïau perthnasol yn cynnwys y |

| | |
|---|---|
| | canlynol:<br>▪ Caiff y rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus cofrestredig ei warchod, ei gynnal a’i wella.<br>▪ Gwnaiff y Cyngor hybu darparu rhwydwaith o feiclwybrau ar draws y Sir i ganiatáu gwell mynediad i gefn gwlad ar gefn beic.<br>▪ Ni chaniateir dargyfeirio Hawliau Tramwy Cyhoeddus ond o dan yr amgylchiadau canlynol:<br>(1) Mae’n angenrheidiol er mwyn caniatáu i ddatblygiad ddigwydd;<br>(2) Mae’r cynnig yn peri bod llwybr yn cael ei ddarparu i’r cyhoedd nad yw’n llawer hwy ac nad yw’n llai cyfleus.<br>▪ Ni chaniateir diddymu Hawliau Tramwy Cyhoeddus ond o dan yr amgylchiadau canlynol:<br>(1) Mae’n angenrheidiol i ganiatáu i ddatblygiad ddigwydd, ac nid oes dim potensial am lwybr arall<br>(2) Nid oes ei angen at ddefnydd y cyhoedd.<br><br>Mae’r CDU hefyd yn cynnwys polisïau ar gyfer hygyrchedd lleol drwy gerdded a beicio (T2.4) a’r rhwydwaith beicio strategol (T3.3).<br><br>Ni fabwysiadwyd y CDU yn ffurfiol er bod ei bolisïau’n ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio. Mae’r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol a hwnnw fydd y cynllun newydd ar gyfer defnyddio tir yng Ngheredigion. |
| ‘Cynllun Gweithredu Cynnydd Twristiaeth Ceredigion (CCT)’, CSC (2002) | Mae’r cynllun yn tanlinellu’r rhaglenni mawr o fuddsoddiad mewn twristiaeth sydd yn cael eu gweithredu o fewn y Sir ac yn canolbwyntio sylw ar yr angen i fuddsoddi mewn cyfleusterau twristaidd ategol. Mae’r CCT yn pwysleisio pwysigrwydd cerdded a beicio ar gyfer datblygu twristiaeth ac yn adeiladu ar ddarpariaethau’r Strategaeth Cefn Gwlad. Amcan tymor hir datblygiad twristiaeth Ceredigion yw sir lle:<br>▪ Mae pob hawl dramwy yn ddi-rwystr ac wedi’i harwyddo<br>▪ Mae rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio o ansawdd uchel sydd wedi’u henwi, yn cydgysylltu â’i gilydd, yn cyrraedd pob rhan o’r sir ac yn cysylltu â chefn gwlad y tu hwnt i ffiniau’r sir<br>▪ Mae rhwydwaith o deithiau cerdded cylchog wedi cael ei ddatblygu o’r asgwrn cefn llinellol i sicrhau y gellir cerdded 'teithiau hir’ fel cyfres o deithiau cylchog unigol<br>▪ Mae gan bob anheddiad ei deithiau cerdded lleol ei hun |

| | |
|---|---|
| | ▪ Mae darpariaeth wybodaeth o ansawdd uchel ynglŷn â chyfleoedd mynediad yng nghefn gwlad.<br>▪ Mae'r holl lwybrau mynediad wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus. |
| 'Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Ceredigion', CSC (2004) | Mae'r strategaeth yn cwmpasu'r rhychwant o wasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Ymddiriedolaethau Iechyd a'r Cyngor Sir. Mae'n cynnwys 'Cynllun Gweithredu' ar gyfer y cyfnod 2005-08 a nifer o flaenoriaethau allweddol. Mae'r mesurau canlynol wedi'u cynnwys o dan y flaenoriaeth hon:<br>▪ Sicrhau bod buddion iechyd a lles yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu strategaethau beicio a cherdded, datblygiad arfordir a chefn gwlad, cynlluniau llwybr diogel i'r ysgol, ac ati.<br>▪ Cefnogi datblygiad y rhaglen 'Cerdded Llwybr Iechyd'.<br><br>Mae Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer y cyfnod 2008 hyd at 2011 wrthi'n cael ei chynhyrchu ar hyn o bryd. |

## ARDALOEDD RHEOLI LLWYBRAU YNG NGHEREDIGION



*Atodiad 6*

## Y LLWYBRAU HAMDDEN STRATEGOL PRESENNOL:

## HYRWYDDO MYNEDIAD A RHOI CYHOEDDUSRWYDD IDDO – CYNGOR SIR CEREDIGION

| Llwybr / Lleoliad | Defnyddwyr | Taflen / llyfryn | Gwefan |
|---|---|---|---|
| ***Llwybr yr Arfordir / Mynediad i'r Arfordir*** | | | |
| Llwybr yr Arfordir Ceredigion | 🚶 | ✓ | ✓ |
| Llannon - Llanrhystud | 🚶 | ✓ | |
| ***Teithiau Arfordir & Chefn Gwlad*** | | | |
| Aberaeron – Llanbedr Pont Steffan | 🚶 | ✓ | ✓ |
| Y Borth – Pontarfynach-Pontrhydendgaid | 🚶 | ✓ | ✓ |
| Aberaeron | 🚶 | ✓ | ✓ |
| Aberystwyth (Craig Glais) | 🚶 | ✓ | ✓ |
| Llanbedr Pont Steffan (Allt Goch) | 🚶 Ω 🚲 | ✓ | ✓ |
| Y Ceinewydd - Cwmtydu | 🚶 | ✓ | ✓ |
| Rhydlewis | 🚶 Ω 🚲 | ✓ | ✓ |
| Trefeurig | 🚶 Ω 🚲 | ✓ | ✓ |
| Tresaith - Aberporth | 🚶 | ✓ | ✓ |
| ***Llwybrau cylchog o'r Borth hyd at Bonrhydgendigaid*** | | | |
| Talybont | 🚶 | | ✓ |
| Cwmsymlog | 🚶 | | ✓ |
| Bontgoch | 🚶 | | ✓ |
| Nant yr Arian | 🚶 | | ✓ |
| Pontarfynach | 🚶 | | ✓ |
| ***'Cerdded Moryd y Teifi'*** | | | |
| Llechryd i Benparc (Rhif 4) | 🚶 | ✓ | ✓ |
| Aberteifi i'r Mwnt (Rhif 5) | 🚶 | ✓ | ✓ |
| ***Beiclwybrau a Theithiau Beicio:*** | | | |
| Aberaeron - Llanerchaeron | 🚶 🚲 | | ✓ |
| Llwybr Ystwyth | 🚶 Ω 🚲 | | ✓ |
| Aberystwyth - Glanyrafon | 🚶 🚲 | ✓ | |
| ***Llwybrau Beicio ('bothau beic')*** | | | |
| Aberaeron / Y Ceinewydd | 🚲 | ✓ | ✓ |
| Aberteifi | 🚲 | ✓ | ✓ |
| Llanbedr Pont Steffan / Tregaron | 🚲 | ✓ | ✓ |

## ADRODDIAD SGRINIO AR ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL

| **Teitl y cynllun / rhaglen** | **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion** |
|---|---|
| **Pwrpas y Cynllun** | Nodi, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Ngheredigion. |
| **Beth wnaeth sbarduno'r cynllun (e.e. darpariaethau deddfwriaethol, rheoliadol neu weinyddol?)** | Yn ofynnol o dan ddeddfwriaeth - Adrannau 60 a 61 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 |
| **Testun y Cynllun** | Hawliau Tramwy a materion perthnasol o ran mynediad i gefn gwlad a'r arfordir. |
| **Cyfnod y Cynllun** | 2008 i 2018 |
| **Pa mor aml gaiff y cynllun ei ddiweddaru** | Caiff y cynllun ei adolygu yn y cyfnod i 2018 |
| **Ardal y Cynllun (e.e. cilomedr sgwâr)** | Sir Geredigion |
| **Crynodeb o ran natur/cynnwys y cynllun** | Nodi, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Ngheredigion. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i wella cyfleoedd mynediad i'r dall neu'r rhannol ddall ac eraill â phroblemau symudedd. |
| **Dyddiad y sgrinio** | Awst 2008 |
| **Manylion cyswllt y swyddog arweiniol** | Ian Dutch<br>Cyngor Sir Ceredigion<br>Penmorfa,<br>Aberaeron, Ceredigion<br>Rhif ffôn: 01545 572105 |
| **Angen Asesiad Amgylcheddol Strategol Oes / Nac oes?** | Nac oes |

Nod y ddogfen hon yw sgrinio cynlluniau a rhaglenni er mwyn penderfynu a oes angen cynnal asesiad er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (SI 1656 W170). Bu i'r Awdurdodau Cyfrifol ystyried y meini prawf sy'n gynwysedig yn Atodlen 1 y Rheoliadau fel y nodwyd isod a phenderfynwyd fod cynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Benfro yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd felly ni fydd yn rhaid cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol fel y bo'n ofynnol dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC (Cyfarwyddeb ar Asesiad Amgylcheddol Strategol).

Bydd Adran 1 yn penderfynu a yw'r cynllun neu'r rhaglen yn berthnasol o dan Gyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Yn Adran 2 ceir disgrifiad o'r effeithiau sylweddol tebygol.

Mae’r hyn a benderfynwyd gan yr Awdurdod ar gyfer pob un o’r meini prawf a nodwyd ar y tudalennau canlynol.

| **ADRAN 1: Meini prawf ar gyfer penderfynu a yw dogfen yn gynllun neu raglen o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol (AAS)** | **Sylwadau'r Cyngor Sir** |
|---|---|
| **Bydd y cynllun neu'r rhaglen (CR) yn cael ei baratoi neu ei fabwysiadu gan awdurdod yn genedlaethol, rhanbarthol neu'n lleol NEU caiff ei baratoi gan awdurdod i'w fabwysiadu drwy weithdrefnau deddfwriaethol y Senedd neu'r Llywodraeth (2.1.a a 2.1.b).** | Paratowyd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion gan Gyngor Sir Ceredigion a chaiff ei fabwysiadu gan yr Awdurdod. |
| **Mae'r CR yn ofynnol yn ôl darpariaethau deddfwriaethol, rheoliadol neu weinyddol (2.1.c).** | Ydy – Adrannau 60 a 61 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 |
| **Bu i'r gwaith o baratoi'r CR ddechrau ar 21/7/2004 neu wedi hynny (5.1.a).** | Na |
| **Bu i'r gwaith o baratoi'r CR ddechrau cyn 21/7/2004 a chaiff ei fabwysiadu neu ei gyflwyno i'r weithdrefn ddeddfwriaethol ar ôl 22/7/2006 (6.1.a).** | Do |
| **Bydd y CR ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, cludiant, rheoli gwastraff, telegyfathrebu, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir (5.2.a) gan nodi'r fframwaith ar gyfer caniatáu datblygiadau i'r dyfodol o ran prosiectau a restrwyd yn Anecs I neu II Cyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC (gan ddiwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC) (5.2.b).** | Na - Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus a rhai materion mynediad sy'n ymwneud â chefn gwald a'r arfordir. Mae cysylltiadau â rhai o'r meysydd a restrwyd, megis amaethyddiaeth, twristiaeth a defnydd tir fodd bynnag nid yw'n gynllun penodol ar gyfer unrhyw un o'r gweithgareddau yma. Bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn nodi'r cyd-destun strategol ar gyfer cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Ngheredigion. |
| **Bydd yn ofynnol i'r CR, yn sgil ei effaith debygol ar safleoedd, gael ei asesu yn unol â Chyfarwyddeb Cynefinoedd (5.3).** | Nid yw Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd yn ei rinwedd ei hun, er y bydd yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynigion manwl a all gael effaith o'r fath. Mae nifer o ardaloedd dynodedig Ewropeaidd a ddiogelir naill yng Ngheredigion, yn rhannol yn y sir neu ar bwys (safleoedd Ardal Gadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Ramsar). Ni ystyrir fod angen asesiad ar y cynllun hwn yn unol â Chyfarwyddeb Cynefinoedd. |
| **Ydy'r CR yn nodi'r fframwaith ar gyfer hawl datblygu prosiectau i'r dyfodol (5.4.b)?** | Bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn gosod fframwaith ar gyfer rheoli a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Ngheredigion. Mae cyfundrefn ddeddfwriaeth benodol ar gyfer hawliau tramwy. |
| **Ydy'r CR yn penderfynu ar ddefnydd ardaloedd bach ar lefel lleol NEU a ydyw'n newidiad bach i'r CR yn amodol** | Mae hawliau tramwy yn ôl eu natur yn llinellol ac yn gul ac y mae'r effaith a geir ganddynt fel arfer yn lleol iawn. Mae gan |

| | |
|---|---|
| **ar Erthygl. 3.2 (lle bydd yr aelod-wladwriaethau yn penderfynu ei fod yn debygol o gael effaith amgylcheddol sylweddol)?** | ddulliau eraill o fynediad i gefn gwlad (e.e. Mynediad Agored) fwy o effaith dros ardaloedd ehangach. |
| **Ai unig bwrpas y CR yw gwasanaethu amddiffyn cenedlaethol neu argyfyngau sifil NEU a ydyw'n CR ariannol neu gyllidebol NEU a gaiff ei gydlynu gan gronfeydd strwythurol neu raglenni EAGGF?** | Mae elfen ariannol i Gynllun Gwella Hawliau Tramwy all ddarparu sail ar gyfer ariannu ceisiadau. |

| **ADRAN 2: Meini prawf ar gyfer penderfynu pa mor sylweddol y bydd yr effaith tebygol ar yr amgylchedd.** | **Sylwadau'r Cyngor Sir** |
|---|---|
| **Asesu a yw'r CR yn debygol o gael effaith amgylcheddol sylweddol (5.4.c).** | Rhestrir y meini prawf ar gyfer asesu effaith amgylcheddol sylweddol yn Atodlen 1 y Rheoliadau a nodir isod. |
| **Nodweddion y CR gan ystyried y canlynol:**<br>**(a) Y graddau y bydd y CR yn nodi'r fframwaith ar gyfer prosiectau neu weithgareddau eraill, naill ai wrth ystyried lleoliad, natur, maint ac amodau gweithredu neu drwy ddynodi adnoddau.**<br><br>**(b) Y graddau y bydd y CR yn dylanwadu ar gynlluniau neu raglenni eraill gan gynnwys y rheiny sydd mewn hierarchaeth.**<br><br>**(c) Pa mor berthnasol yw'r CR ar gyfer integreiddio ystyriaethau amgylcheddol yn benodol gyda'r nod o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.**<br><br>**(d) Problemau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r CR.**<br><br>**(e) Pa mor berthnasol yw'r CR ar gyfer gweithredu deddfwriaeth gymunedol ar yr amgylchedd.** | a) Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ddogfen strategol sy'n nodi'r fframwaith a ddefnyddir ar gyfer cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy (felly caiff gweithgareddau a phrosiectau eu clustnodi) Bydd goblygiadau gofodol a goblygiadau o ran dynodi adnoddau i weithredu'r cynllun.<br>b) Bydd gan Gynllun Gwella Hawliau Tramwy effaith ar gynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill a gynhyrchir gan yr Awdurdod. Bydd hefyd ganddo ddylanwad ar gynlluniau a rhaglenni a gynhyrchir gan sefydliadau eraill.<br>c) Bydd gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cael dylanwad ar amgylchedd y Sir. Mae gweledigaeth Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ei gwneud hi'n glir taw'r bwriad fydd darparu cyfleoedd ansawdd uchel cynaliadwy fel y gellir cyrraedd arfordir a chefn gwlad Ceredigion. Caiff y ffocws yma ei adlewyrchu drwy gydol y cynllun.<br>d) Yn bennaf oll pwrpas y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fydd gwella mynediad i arfordir a chefn gwlad Ceredigion. Mae'n ceisio gwneud hyn mewn modd cynaliadwy. Caiff natur y mynediad a ddarperir ei hyrwyddo fel 'effaith isel'.<br>e) Nid Cynllun yw Cynllun Gwella Hawliau Tramwy y bydd ei brif bwrpas yn ymwneud â gweithredu deddfwriaeth gymunedol ar yr amgylchedd. Fodd bynnag bydd gan yr hyn a ddarperir ynddo ddimensiwn amgylcheddol |

| | |
|---|---|
| | a'i nod fydd darparu cyfleoedd cynaliadwy er mwyn medru cyrraedd arfordir a chefn gwlad Ceredigion. Adlewyrchir yr elfennau hyn |
| **Nodweddion yr effeithiau a'r ardal mae'n debygol yr effeithir arni gan ystyried y canlynol:**<br>**(a) Tebygolrwydd, hyd, amledd, a pha mor debygol fydd gwyrdroi'r effeithiau.** | hefyd yn y Strategaeth Gymunedol ('Ceredigion 2020')<br><br>a) Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn annhebygol o gael effaith amgylcheddol sylweddol er y gall gweithredu cynigion sy'n codi o'r hyn a ddarperir ganddo'n gyffredinol gael effaith lleol. Bydd y cynllun yma dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae'n bosib y bydd lefel y gweithgareddau yn amrywio'n sylweddol, o wella mynediad i waith cynnal a chadw rheolaidd (megis torri porfa). Fel arfer gellir creu cyfleoedd mynediad heb effaith andwyol sylweddol ar yr amgylchedd yn y tymor hir ac yn aml iawn gellir gwyrdroi effaith dros dro os defnyddir y gweithdrefnau cywir. |
| **(b) Effaith cronnus yr effeithiau yma.** | b) Mae Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn annhebygol o greu effeithiau cronnus negyddol sylweddol. Fel arfer bydd effaith amgylcheddol gwaith cynnal a chadw a gwelliannau ar y rhwydwaith hawliau tramwy yn lleol iawn ac mewn rhai achosion yn weithgareddau dros dro. |
| **(c) Natur drawsffiniol yr effeithiau.** | c) Bydd effaith Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn lleol ac y bydd yn bosib y ceir mân effeithiau (yn aml iawn o natur bositif) ar siroedd ar bwys (Powys, Sir Gâr a Sir Benfro) ni fydd effaith sylweddol o gwbl ar aelod-wladwriaethau eraill y DU. |
| **(d) Risg i iechyd dynol neu i'r amgylchedd** | d) Yn gyffredinol, gall defnydd amhriodol o'r rhwydwaith hawliau tramwy fod o risg i iechyd dynol ac achosi difrod amgylcheddol. Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn annog defnydd cyfrifol o'r rhwydwaith. |
| **(e) Maint ac ystod ofodol yr effeithiau yma (ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth y mae'n debygol yr effeithir arnynt).** | e) Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy yn ymestyn dros 2,506 kms ar draws y Sir. Nodir hefyd 25,993 hectar o 'Dir Mynediad' dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy lle dynodir ardaloedd ychwanegol hefyd. Mae oddeutu 78,280 o bobl yn byw yng Ngheredigion (2005, amcangyfrif canol blwyddyn) a gellir ychwanegu nifer sylweddol o dwristiaid. Mae'n bosib y bydd effaith gofodol hyn y tu hwnt i ffin y Sir os caiff cynigion traws-ffiniol eu gweithredu. |
| **(f) Gwerth a pherygl posib i'r ardal oherwydd:** | Ystyrir gan yr Awdurdod y bydd gweithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn bennaf yn bositif. |

| | |
|---|---|
| ***(i) nodweddion naturiol arbennig neu dreftadaeth ddiwylliannol***<br><br>***(ii) yn fwy na'r safonau ansawdd amgylcheddol neu'r terfyn gwerthoedd; a***<br><br>***(iii) Defnydd Tir Dwys.***<br><br>**(g) Yr effaith ar ardaloedd neu dirweddau sydd â statws amddiffyn cydnabyddedig cenedlaethol, cymunedol neu ryngwladol .** | f) Mae tirwedd Ceredigion yn cynnwys arfordir deniadol a chefn gwlad eang ac amrywiol gan gynnwys ucheldir Mynyddoedd Cambria, dyffrynnoedd, iseldir caiff ei amaethu'n ddwys, coetiroedd ac aberoedd. Mae hefyd gan Geredigion rywogaethau a chynefinoedd amrywiol a werthfawrogir yn fawr. Ni ragwelir y bydd gan y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy effaith negyddol sylweddol ar y dirwedd na bioamrywiaeth.<br>(i) Mae gan Geredigion nifer fawr o safleoedd dynodedig gan gynnwys amrywiol safleoedd Ewropeaidd a ddynodwyd ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodfeydd Arbennig ayb) yn ogystal â safleoedd ac ardaloedd sydd hyd yn oed yn fwy pwysig yn genedlaethol gan gynnwys nifer o safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Adeiladau Rhestredig, Parciau a gerddi hanesyddol, Ardaloedd Cadwraeth a mentrau treftadaeth treflun. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn cyfrannu at nodweddion naturiol arbennig a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal sydd angen eu diogelu a'u gwella. Ni ragwelir y bydd gan y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy effaith negyddol sylweddol ar unrhyw un o'r rhain.<br>(ii) Mae'n annhebygol y caiff unrhyw gamau sy'n codi o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy unrhyw effaith negyddol sylweddol ar unrhyw safle dynodedig neu'n fwy cyffredinol ar ansawdd y dirwedd na bioamrywiaeth y Sir.<br>(iii) Ni fydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn golygu'r gweithredu unrhyw gynigion a all olygu defnydd tir dwys. Bydd ei effaith yn gyffredinol yn lleol ac ar raddfa gymedrol o ran ei effaith hefyd ar yr amgylchedd.<br>g) Mae'n annhebygol y bydd gan y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy unrhyw effaith sylweddol ar dirwedd sydd â statws gwarchod cenedlaethol, cymunedol neu ryngwladol. Er y bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn hwyluso mynediad cynaliadwy i'r ardaloedd yma a thrwyddynt, mae'n annhebygol y bydd yn achosi unrhyw effaith negyddol sylweddol ar yr ardaloedd dynodedig neu'n fwy cyffredinol ar draws Sir Benfro. |

**ADRAN 3: Ymgynghori**

| Ni fu i’r canllawiau a gynhyrchwyd gan LCC ar gynhyrchu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy gyfeirio o gwbl at unrhyw ofyniad i sgrinio o ran y Cyfarwyddeb ar Asesiad Amgylcheddol Strategol. Awgrymwyd y dylid sgrinio’r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ystod ymgynghoriad ar y cynllun drafft yn 2008. Felly, ni ddilynwyd y broses ymgynghori sy’n ofynnol o ran y sefydliadau a restrwyd isod. Fodd bynnag, ymgynghorwyd â thri o’r pedwar sefydliad ar y cynllun drafft a bu iddynt gyflwyno sylwadau. | |
|---|---|
| **Y sawl yr ymgynghorwyd â hwy** | **Sylwadau** |
| **Cadw** | Bu i Cadw dynnu sylw at y cyfraniad positif gall amgylchedd hanesyddol ei wneud i fynediad i gefn gwald. Bu i’r sylwadau yma gael eu cynnwys yn y cynllun terfynol. |
| **Cyngor Cefn Gwlad Cymru** | Cyflwynwyd sylwadau manwl ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft ac y mae’r Awdurdod, yn y rhan fwyaf o achosion wedi ymateb iddynt yn y modd y gofynnwyd. |
| **Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru** | Ymgynghorwyd â hwy ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft. Bu iddynt gyflwyno pryderon ar y Cynllun drafft o ran materion ymarferol/ gweithredol yn ymwneud â gwaith ar hawliau tramwy. Nid oedd newidiadau i’r cynllun terfynol yn ofynnol. |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Ni ymgynghorwyd â hwy. |